

# Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU

AUDIT SCOTLAND

National Audit Office

Archwilio Cymru
Audit Wales

Northern Ireland
Audit Office

# Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin
i'w argraffu ar 14 Medi 2023

**DU**

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Adran 6 o Ddeddf Archwilio Genedlaethol 1983 i'w gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 9 y Ddeddf.

**Gogledd Iwerddon**

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Erthygl 8 o Orchymyn Archwilio (Gogledd Iwerddon) 1987 i'w gyflwyno i Gynulliad Gogledd Iwerddon yn unol ag Erthygl 11 o'r Gorchymyn.

**Cymru**

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Adran 9 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2013

Sylwer bod yr adroddiad yn cyfeirio at nifer o adroddiadau a gwefannau a cheir yn Saesneg yn unig, gan nad yw pob cyfrannwr yn cynhyrchu deunyddiau yn y Gymraeg.

HC 1785



# Cynnwys


Rhagair gan bedwar Archwilydd Cyffredinol y DU 4

Ynglŷn â'r adroddiad 5

Themâu allweddol 6

Y pedair gwlad – Targedau a pherfformiad sero net 8

Trefniadau ledled y DU 12

Trefniadau yn yr Alban 22

Trefniadau yng Nghymru 30

Trefniadau yng Ngogledd Iwerddon 37

Ôl-nodiadau 45

RHAGAIR GAN BEDWAR ARCHWILYDD CYFFREDINOL Y DU

# Rhagair

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn disgrifio newid hinsawdd fel mater diffiniol ein hoes. Rydym eisoes yn gweld yr effeithiau ledled y byd, ac ar ein hamgylchedd, ein pobl a'n seilwaith yma yn y DU. Os na chaiff ei atal, dim ond cynyddu wnaiff yr effeithiau hyn.

Mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi pasio deddfwriaeth sy'n ymrwymo i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr 'sero net' erbyn 2050 ar yr hwyraf. Yn ei adroddiad cynnydd diweddaraf i Senedd y DU (Mehefin 2023), dywedodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd fod "ei hyder yng ngallu'r DU i gyrraedd ei thargedau tymor canolig wedi lleihau yn y flwyddyn ddiwethaf". Mae pwysau cyfredol ar gyllid cyhoeddus a'r costau byw cynyddol yn cyflwyno heriau i wneud cynnydd tuag at y targed yn 2050, ond mae methu ag arafu newid hinsawdd a pharatoi ar gyfer newidiadau yn ein hinsawdd yn debygol o osod cost drom ar genedlaethau'r dyfodol. Yn y cyfamser, mae risgiau gwastraff, costau cynyddol a'r risg y bydd prosiectau'n methu â dwyn manteision amgylcheddol sylweddol yn uchel. Fodd bynnag, os caiff ei gynllunio a'i gyflawni'n effeithiol, gall buddsoddi mewn mynd i'r afael â newid hinsawdd helpu llywodraethau i wireddu nodau polisi ehangach hefyd.

Mae graddfa a chymhlethdod yr her yn anferthol, ac nid yw canlyniadau newid hinsawdd yn parchu ffiniau. Bydd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyrraedd eu nodau polisi o ran yr hinsawdd os byddant yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn cydweithio lle mae amcanion yn gyson â'i gilydd. Dyma pam fo craffu allanol yn dyngedfennol hefyd. Bydd y pedair swyddfa archwilio ledled y DU yn gweithio'n unigol a chyda'i gilydd i graffu ar gynnydd tuag at sero net, gan ddwyn cysylltiadau ar draws ffiniau sefydliadol, croesholi data ariannol ac ystyried pa mor effeithlon ac effeithiol y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario i gyrraedd y nodau hyn.

Trwy ein hymgysylltu rheolaidd, a chan dynnu ar y gwersi o waith archwilio blaenorol, gallwn siarad ag awdurdod wrth ein deddfwrfeydd a'n gwasanaethau cyhoeddus am gynnydd, yr hyn sy'n gweithio, a ble y mae'r risgiau. Mae ein hawliau mynediad a'n hannibyniaeth yn golygu y gallwn daflu goleuni ar sut y mae cyflawni sero net yn gweithio'n ymarferol, gan adrodd heb 'ofni na ffafrio'. Mae archwilwyr hefyd mewn sefyllfa dda i ystyried sut y mae timau cyllid yn y cyrff a archwilir gennym yn ymgodymu â risgiau newid hinsawdd ac yn ymateb i ddatblygiadau mewn safonau adrodd ariannol.

Gan adeiladu ar ein gwaith hyd yma, rydym wedi dod ynghyd i gynhyrchu'r adroddiad hwn ar y cyd ar gyfer pawb sydd â diddordeb yn y pwnc yma ac i oleuo trafodaeth gyhoeddus. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r proffil allyriadau cyfredol a'r pwerau, cyfrifoldebau, ymrwymiadau a threfniadau cyflawni ar gyfer yr agenda sero net ledled y DU.

Mae ein swyddfeydd archwilio ill pedair yn gwneud eu hymrwymiadau sero net eu hunain a byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth a phrofiad ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach ar y pwnc hollbwysig yma yr ydym yn disgwyl iddo gael sylw cryf yn ein rhaglenni gwaith dros y blynyddoedd nesaf.



**Stephen Boyle, Archwilydd Cyffredinol, Archwilio yr Alban**



**Dorinnia Carville, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon**



**Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol, Archwilio Cymru**



**Gareth Davies, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**

# Ynglŷn â'r adroddiad

**1** Darn o waith ar y cyd rhwng swyddfeydd archwilio cyhoeddus pedair gwlad y DU – Audit Scotland, Archwilio Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon – yw'r adroddiad hwn ac fe'i lluniwyd ag ymgysylltiad gan bob priod lywodraeth neu weinyddiaeth. Mae'n nodi deddfwriaeth, polisi, strategaeth, trefniadau llywodraethu a monitro Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sy'n berthnasol i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net.

**2** Mae sawl nod i'r gwaith yma:

- Disgrifio sut y mae'r cyfrifoldebau a'r pwerau ar gyfer cyrraedd y targed sero net wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth y DU a phob un o'r llywodraethau datganoledig.
- Darparu mewnwelediad ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus am ddull cyffredinol pob un o wledydd y DU ar gyfer cyflawni sero net.
- Rhoi cymorth i graffu ar drefniadau'r llywodraethau i gyflawni sero net.
- Gosod y sylfeini ar gyfer gwaith pellach posibl ar newid hinsawdd gan swyddfeydd archwilio cyhoeddus y DU.

# Themâu allweddol

3 Mae newid hinsawdd yn un o heriau diffiniol ein cenhedlaeth. Rhaid i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig weithredu ar y cyd i gyflawni eu hamcan i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ledled y DU i 'sero net' erbyn 2050. Mae'r pwerau y mae eu hangen i wneud hyn yn nwylo Llywodraeth y DU (pwerau a gedwir) a llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (pwerau datganoledig). Wrth fwrw golwg ledled y DU, rydym wedi adnabod pedair thema allweddol.

4 **Mae gan y pedair gwlad broffiliau allyriadau gwahanol a dulliau amrywiol o gyflawni sero net, ond yn y pen draw rhaid i'r dewisiadau a wnânt gyflawni sero net ar lefel y DU:** Mae'r heriau i leihau allyriadau ychydig yn wahanol ym mhob un o wledydd y DU. Er enghraifft, er mai trafnidiaeth sy'n rhoi cyfrif am y gyfran fwyaf o allyriadau yn Lloegr a'r Alban, amaethyddiaeth a chyflenwi ynni yw prif ffynonellau'r allyriadau yng Ngogledd Iwerddon a Chymru yn y drefn honno. Mae hyn wedi arwain at ddulliau gwahanol ym mhob gwlad, a fydd yn parhau yn ôl pob tebyg wrth i'r DU wneud cynnydd tuag at ei tharged sero net. Mae hyn yn golygu y bydd pob gwlad yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd at leihau allyriadau ledled y DU. Mae'n bwysig sicrhau bod y dewisiadau a wneir gan bob gwlad, pan gânt eu hystyried ar y cyd, yn darparu llwybr effeithlon tuag at gyrraedd targed sero net y DU, gan gyrraedd targedau perthnasol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar yr un pryd.

5 **O ystyried y gwahanol dargedau sero net, cyllidebau carbon a pholisïau ar draws y gwledydd, bydd cyfleoedd i'r llywodraethau ddysgu oddi wrth ei gilydd:** Mae gwledydd y DU wedi gosod targedau gwahanol ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd; mae'r DU, Cymru a Gogledd Iwerddon wedi gosod targed i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr 'sero net' erbyn 2050, tra bo gan yr Alban darged i gyflawni hyn erbyn 2045. Mae pob gwlad wedi sefydlu dull ychydig yn wahanol, gan gynnwys cyfuniadau gwahanol o gyllidebau, targedau a pholisïau. Hefyd, mae gan bob gwlad wahanol drefniadau sector-benodol sy'n tanategu ei nodau newid hinsawdd ar y cyfan. Gan bod pob gwlad yn mynd ar drywydd ei huchelgeisiau sero net mewn ffyrdd ychydig yn wahanol ac yn ôl graddfeydd amser gwahanol, bydd cyfleoedd i ddysgu gwersi oddi wrth ei gilydd ac adnabod y potensial ar gyfer cydlynu a gweithio cydgysylltiedig gwell i gyrraedd nodau cyffredin.

## THEMÂU ALLWEDDOL

6 **Mae cyflawni sero net mewn unrhyw wlad unigol yn dibynnu ar weithredu ar lefel y DU, ac mae'r un peth yn wir fel arall hefyd:** Mae'r cydbwysedd rhwng pwerau a gedwir a phwerau datganoledig yn amrywio ar draws y gwahanol sectorau sydd wedi'u cynnwys yn y targedau lleihau allyriadau. Er enghraifft, bydd penderfyniadau polisi ar lefel y DU gyfan yn hollbwysig i ddiffinio llwybrau tuag at ddatgarboneiddio systemau gwresogi mewn adeiladau, megis pa un a ddylid mynd ar drywydd hydrogen neu drydaneiddio (neu'r ddau) fel ffynhonnell tanwydd, ond bydd angen i hyn gael ei ategu gan weithredu ar lefel ddatganoledig ar faterion fel cynllunio a gwella effeithlonrwydd ynni. Mae cyd-ddibyniaethau'n codi hefyd trwy benderfyniadau gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar gyllidebau'r llywodraethau datganoledig.

7 **Bydd perthnasoedd gweithio effeithiol ac ymgysylltu clos rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn hollbwysig i gyrraedd y nod o ran sero net ar y cyfan:** Er mwyn cyrraedd targed sero net y DU yn effeithlon bydd yn rhaid wrth ddull cydgysylltiedig o leihau allyriadau ledled y DU gyfan, gan helpu i sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn cynnwys mynd ati ar y cyd i flaenoriaethu'r camau gweithredu a fydd yn cyflawni'r gostyngiadau mwyaf mewn allyriadau ledled y DU, yn ogystal â sicrhau nad yw strwythurau a phrosesau'n creu rhwystrau diangen i weithio cydgysylltiedig a dysgu ar y cyd. Sefydlwyd y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd yn 2020 i ategu ymgysylltu a chydweithio effeithiol rhwng gweinidogion sy'n arwain ar y materion hyn ledled y DU.

Y PEDAIR GWLAD – TARGEDAU A PHERFFORMIAD SERO NET

**77%**


Targed dros dro o ostyngiad o 77% yn y DU mewn allyriadau erbyn 2037

**46.7%**

Gostyngiad o 46.7% yn allyriadau'r DU yn erbyn llinell sylfaen 1990

**446.0 $MtCO_2e$**

Cyfanswm allyriadau'r DU ar gyfer 2021




**109.5 $MtCO_2e$**

Allyrrydd uchaf – Trafnidiaeth



## Y pedair gwlad – Targedau a pherfformiad sero net

**8** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'r targedau cyfredol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (y cyfeirir atynt yn fynych gan ddefnyddio'r term byrrach 'allyriadau carbon') ac yn disgrifio'r cynnydd tuag at gyrraedd y targedau hyn.

**9** Mae deddfwriaeth ar gyfer y DU, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol lleihau allyriadau dros y degawdau nesaf. Wedi'u cynnwys yn y detholiad o ddeddfwriaeth mae targedau amrywiol gan gynnwys targed ar y cyfan i gyflawni sero net erbyn 2050 (yn achos yr Alban erbyn 2045). Ceir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r targedau a'r fframiau amser yn yr adrannau o'r adroddiad sy'n ymwneud â'r DU gyfan a gwledydd penodol (tudalennau 12 i 44).

**10** Yn achos y DU, Cymru a Gogledd Iwerddon, mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol pennu cyllidebau carbon, sy'n diffinio terfynau ar gyfanswm yr allyriadau dros gyfnodau penodedig o bum mlynedd. Mae Cymru wedi pennu cyfnodau cyllidebau carbon gwahanol i'r DU a Gogledd Iwerddon. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adrannau o'r adroddiad sy'n ymwneud â'r DU gyfan a gwledydd penodol (tudalennau 12 i 44). Nid yw deddfwriaeth yn yr Alban yn ei gwneud yn ofynnol pennu cyllidebau carbon. Fodd bynnag, ceir gofyniad yn yr Alban i gyrraedd targedau lleihau carbon blynyddol.[1]

**11** I wybod a yw'r DU, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar y trywydd iawn i gyrraedd eu targedau, mae angen iddynt fonitro'u hallyriadau carbon ac adrodd arnynt. Caiff yr allyriadau hyn eu mynegi mewn miliynau o dunelli cyfwerth â CO2 (MtCO2e). Mae'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol yn adrodd yn flynyddol ar yr allyriadau carbon ar gyfer y DU, Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

**12** Mae'r data fel a nodir yn **Ffigur 1**, ar dudalennau 9 i 11, yn dangos bod allyriadau'n lleihau ledled y DU ac ar gyfer y gwledydd unigol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yn ei adroddiad cynnydd diweddar ar gyfer 2023 i Senedd y DU, wedi dweud bod ei "hyder yng ngallu'r DU i gyrraedd ei thargedau tymor canolig wedi lleihau yn y flwyddyn ddiwethaf" sy'n awgrymu bod mwy i'w wneud o hyd.[2]

1 Mae'r term 'carbon' yn aml yn cael ei ddefnyddio fel llaw fer i gyfeirio at yr holl nwyon tŷ gwydr. Carbon deuocsid yw'r prif nwy tŷ gwydr, mae eraill yn cynnwys methan ac ocsid nitrus.

2 Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn gorff statudol, annibynnol a sefydlwyd dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Ei ddiben yw cynghori Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghylch targedau allyriadau ac adrodd wrth Senedd y DU ar gynnydd a wnaed o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pharatoi ar gyfer effeithiau ac ymaddasu i effeithiau newid hinsawdd.

FFIGUR 1

Uchafbwyntiau allweddol sy'n ymwneud â thargedau sero net, allyriadau a chynnydd ar gyfer y DU gyfan a'r gwledydd unigol

**Targed allyriadau sero net**



2050, gyda tharged interim sy'n cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU dros 2033-37, sy'n cynrychioli gostyngiad o 77% o'i gymharu â lefelau 1990.

**Targed sero net y sector cyhoeddus**

Targed i leihau allyriadau uniongyrchol o adeiladau'r sector cyhoeddus 75% erbyn 2037, o'i gymharu â llinell sylfaen 2017.

Dim targed sero net penodol ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae cyrff yn gweithio tuag at y dyddiadau targed interim a sero net deddfwriaethol.

**Sectorau â'r allyriadau uchaf 2021**[1]

| | $MtCO_2e$ |
|---|---|
| **Roedd cyfanswm yr allyriadau ar gyfer y DU yn 2021**[2] | **446.0** |
| Trafnidiaeth (24.6%) | **109.5** |
| Cyflenwi ynni (19.5%) | **86.9** |
| Busnes (16.9%) | **75.3** |
| Preswyl (15.6%) | **69.4** |
| Amaethyddiaeth (10.7%) | **47.9** |

**Cynnydd**

Mae allyriadau'r DU wedi lleihau 46.7% yn erbyn llinell sylfaen 1990. Mae'r DU ar y trywydd iawn i berfformio'n well na'i tharged yn y Drydedd Gyllideb Garbon (2018 i 2022). Fodd bynnag, nid yw allyriadau'n lleihau ar y cyflymder gofynnol i gwrdd â chyllidebau yn y dyfodol.

**Lleihau allyriadau yn erbyn llinell sylfaen 1990**


**46.7%**

## Y PEDAIR GWLAD – TARGEDAU A PHERFFORMIAD SERO NET

Y PEDAIR GWLAD – TARGEDAU A PHERFFORMIAD SERO NET

**FFIGUR 1** *Continued*

Uchafbwyntiau allweddol sy'n ymwneud â thargedau sero net, allyriadau a chynnydd ar gyfer y DU gyfan a'r gwledydd unigol

| | Targed allyriadau sero net | Targed sero net y sector cyhoeddus | Sectorau â'r allyriadau uchaf 2021 | Sectorau â'r allyriadau uchaf 2021[1] | $MtCO_2e$ | Cynnydd | Lleihad allyriadau yn erbyn llinell sylfaen 1990 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lloegr**  | Gweler uchod – Nid oes targedau interim gwahaniaeth-adwy ar gyfer Lloegr, gan bod ei chynnydd yn cael ei ystyried trwy dargedau interim y DU gyfan. | Gweler uchod – Nid oes targedau interim gwahaniaeth-adwy ar gyfer Lloegr, gan bod ei chynnydd yn cael ei ystyried trwy dargedau interim y DU gyfan. | 333.6 $MtCO_2e$ | Trafnidiaeth (26.7%) | 89.3 | Mae allyriadau Lloegr wedi lleihau 48.8% yn erbyn llinell sylfaen 1990. Nid oes targedau interim gwahaniaeth-adwy ar gyfer Lloegr, gan bod ei chynnydd yn cael ei ystyried trwy dargedau interim y DU gyfan. | 48.8% ↓ |
| | | | | Cyflenwi ynni (17.3%) | 57.8 | | |
| | | | | Preswyl (17.0%) | 56.6 | | |
| | | | | Busnes (16.7%) | 55.6 | | |
| | | | | Amaethyddiaeth (8.4%) | 28.1 | | |
| **Gogledd Iwerddon**  | 2050, gyda tharged interim i gyflawni gostyngiad o 48% o leiaf erbyn 2030. Mae targed interim ar gyfer 2040 yn mynd i gael ei sefydlu. Mae'r rhain yn erbyn llinellau sylfaen 1990 neu 1995 (gan ddibynnu ar y nwy tŷ gwydr) fel a nodir yn Neddf Newid Hinsawdd (Gogledd Iwerddon) 2022. | Dim targed penodol ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae cyrff yn gweithio tuag at y dyddiadau targed interim a sero net deddfwriaethol. | 22.5 $MtCO_2e$ | Amaethyddiaeth (27.6%) | 6.2 | Mae allyriadau Gogledd Iwerddon wedi lleihau 23.2% yn erbyn llinell sylfaen 1990. Fodd bynnag, fe gynyddodd allyriadau ychydig rhwng 2020 a 2021. Nid yw'r cyllidebau carbon ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi cael eu pennu eto. | 23.2% ↓ |
| | | | | Trafnidiaeth (16.7%) | 3.8 | | |
| | | | | Busnes (14.0%) | 3.2 | | |
| | | | | Cyflenwi ynni (13.7%) | 3.1 | | |
| | | | | Preswyl (12.4%) | 2.8 | | |
| **Yr Alban**  | 2045, gyda thargedau interim i gyflawni gostyngiad o 75% erbyn 2030 a 90% erbyn 2040. Mae'r rhain yn erbyn llinell sylfaen 1990 ac wedi'u nodi yn Newid Hinsawdd (Targedau Lleihau Allyriadau) (Yr Alban) 2019. | Dim targed penodol ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae cyrff yn gweithio tuag at y dyddiadau targed interim a sero net deddfwriaethol. | 41.6 $MtCO_2e$ | Trafnidiaeth (26.3%) | 11.0 | Lleihaodd allyriadau'r Alban 49.9% rhwng llinell sylfaen 1990 a 2021. Roedd hyn ychydig yn brin o darged interim i gyflawni gostyngiad o 51.1% dros yr un cyfnod.[3] | 49.9% ↓ |
| | | | | Amaethyddiaeth (18.8%) | 7.8 | | |
| | | | | Busnes (18.6%) | 7.7 | | |
| | | | | Preswyl (15.1%) | 6.3 | | |
| | | | | Cyflenwi ynni (11.7%) | 4.9 | | |
| **Cymru**  | 2050, gyda thargedau interim ar gyfer gostyngiad carbon o 63% yn 2030, 89% yn 2040 fel a nodir yn Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021. Mae'r rhain yn erbyn y llinellau sylfaen ym 1990 a 1995 (gan ddibynnu ar y nwy tŷ gwydr) fel a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. | Uchelgais ar y cyd gan Lywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030 (Gorffennaf 2017).[i] Statws carbon sero net erbyn 2030. | 36.3 $MtCO_2e$ | Cyflenwi ynni (25.5%) | 9.3 | Ar ddiwedd cyfnod ei chyllideb garbon gyntaf sef 2016 i 2020, mae allyriadau Cymru wedi lleihau 27.8% yn erbyn llinell sylfaen 1990 (fel a nodwyd yn y Datganiad Terfynol ar gyfer y Gyllideb Garbon Gyntaf a tharged interim 2020).[ii] Roedd hyn yn fwy na'r targed o 23% a nodwyd yn Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018. | 27.8% ↓ |
| | | | | Busnes (24.2%) | 8.8 | | |
| | | | | Amaethyddiaeth (15.7%) | 5.7 | | |
| | | | | Trafnidiaeth (14.8%) | 5.4 | | |
| | | | | Preswyl (10.2%) | 3.7 | | |

**Nodiadau**

1 Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (NAEI), *Rhestrau Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: 1990-2021*, Mehefin 2023. Cyrchwyd [Gorffennaf 2023].

2 Nid yw cyfanswm yr allyriadau o bob gwlad unigol yr un faint â chyfanswm yr allyriadau ar lefel y DU. Y rheswm dros hyn yw bod 12 MtCO2e o allyriadau heb eu dyrannu, sydd o weithgareddau ar y môr yn bennaf.

3 Mae'r data o Ystadegau Nwyon Tŷ Gwydr yr Alban 2021 (Mehefin 2023) ac yn seiliedig ar ddull argymhelledig y Pwyllgor Newid Hinsawdd o adrodd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, a adwaenir fel y Cyfrif Nwyon Tŷ Gwydr (gweler adran C).

Ffynhonnell: Archwilio'r Alban, Archwilio Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chrynodeb Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon

# Trefniadau ledled y DU

**Cafodd yr adran a ganlyn ei drafftio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.**

**Roedd tîm yr astudiaeth yn cynnwys: Liam Blanc, Katy Losse a Hassan Muhamed dan gyfarwyddyd Simon Bittlestone.**

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yr allbynnau canlynol, ymhlith eraill, sy'n ymwneud â sero net:

- Support for innovation to deliver net zero (Mai 2023)[iii]
- Decarbonising the power sector (Mawrth 2023)[iv]
- Measuring and reporting public sector greenhouse gas emissions (Mehefin 2022)[v]
- Local government and net zero in England (Gorffennaf 2021)[vi]
- Reducing carbon emissions from cars (Chwefror 2021)[vii]
- Achieving net zero (Rhagfyr 2020)[viii]



TREFNIADAU LEDLED Y DU

## Ymrwymiadau a deddfwriaeth sy'n drosfwaol

**13** Yn 2019, fe wnaeth Llywodraeth y DU ddiwygio *Deddf Newid Hinsawdd 2008* i ymrwymo i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050.[3] Mae hyn yn cynnwys lleihau allyriadau ar gyfer Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, a oedd yn rhoi cyfrif am 23% o allyriadau'r DU yn 2021.

**14** Mae'r Ddeddf Newid Hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU bennu 'cyllidebau carbon', sy'n dargedau sy'n rhwymo mewn cyfraith ar gyfer allyriadau'r DU dros gyfnodau o bum mlynedd. Pennwyd y pum cyllideb garbon gyntaf, a oedd yn rhedeg tan 2032, i wneud cynnydd tuag at y targed lleihau o 80% a bennwyd yn flaenorol erbyn 2050. Mae'r Chweched Gyllideb Garbon, a bennwyd ym mis Mehefin 2021, yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2033 a 2037, ac yn amcanu at gyflawni gostyngiad o 77% mewn allyriadau ledled y DU (gan gynnwys hedfanaeth a morgludiant rhyngwladol) o'i gymharu â lefelau 1990, gan adlewyrchu targed newydd Llywodraeth y DU i gyflawni sero net erbyn 2050.

**15** Mae **Ffigur 2** yn nodi'r sectorau â'r allyriadau uchaf ledled y DU yn 2021.

**16** Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gynhyrchu cynlluniau manwl ar gyfer sut y bydd yn cwrdd â chyllidebau carbon. In 2021, tYn 2021, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei *Strategaeth Sero Net*, yn nodi polisïau ar gyfer lleihau allyriadau o bob sector yn economi'r DU a llwybr i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050.[ix] Mae polisïau wedi'u cadw'n rhannol gan Lywodraeth y DU ac wedi'u datganoli'n rhannol. Felly mae'r strategaeth yn cyflwyno polisïau a chynlluniau Lloegr-benodol a DU-gyfan, sy'n amlygu gwaith y Llywodraeth i gydweithio gyda gweinyddiaethau datganoledig i gymryd camau polisi wedi'u cydlynu

**17** Ym mis Ionawr 2023, cyflwynodd yr *Adolygiad Annibynnol o Sero Net* gan Chris Skidmore AS nifer o argymhellion ar gyfer dull Llywodraeth y DU o fynd ar drywydd sero net a'i llwybrau cyflawni cysylltiedig.[x] Ym mis Mawrth 2023, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei *hymateb* i argymhellion yr adolygiad annibynnol.[xi]

**18** Ym mis Mawrth 2023, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU *Powering up Britain: the net zero growth plan*, sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni sero net mewn "ffordd sy'n ffafriol i dwf, yn ffafriol i fusnesau".[xii] Cyhoeddodd hefyd ei *Chynllun Cyflawni Cyllidebau Carbon*, i hysbysu'r Senedd y DU a'r cyhoedd ynghylch cynigion a pholisïau'r Llywodraeth i'w gwneud yn bosibl cwrdd â chyllidebau carbon.[xiii]


3 Gydag allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2050 yn gyfwerth â'r hyn neu'n llai na'r hyn a dynnir o'r atmosffer gan naill ai'r amgylchedd naturiol neu dechnolegau dal carbon. Mae hyn yn berthnasol i allyriadau tiriogaethol (y rhai a gynhyrchir yn y DU neu beidio, wrth gynhyrchu mewnforion)

## TREFNIADAU LEDLED Y DU

### FFIGUR 2

Allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU, yn ôl sector, yn 2021

**Fe wnaeth y DU allyrru 446 miliwn o dunelli cyfwerth â charbon deuocsid ar draws wyth sector**




**NODIADAU**

1 Mae categoreiddio allyriadau nwyon tŷ gwydr yn dilyn yr hyn a ddefnyddir gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, sy'n cynghori Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ynghylch cyrraedd eu targedau lleihau allyriadau. Mae'r rhifau hyn yn cynnwys cyfraniad y DU at hedfanaeth a morgludiant rhyngwladol, er nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn nhargedau 'cyllideb garbon' y DU (mae cyllidebau carbon yn dargedau sy'n rhwymo mewn cyfraith ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU dros gyfnod o bum mlynedd)

2 Mae cyfwerth â charbon deuocsid yn fesur unedig o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfuno'r holl nwyon tŷ gwydr.

3 LULUCF = Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (2021)

TREFNIADAU LEDLED Y DU

## Strategaeth allweddol yn ôl sector

**19** Wedi'u nodi isod mae strategaethau allweddol ar draws nifer o'r sectorau sydd â'r allyriadau uchaf yn y DU.

### Trafnidiaeth:

**20** Mae'r *Cynllun Datgarboneiddio Trafnidiaeth* (Gorffennaf 2021) yn nodi strategaeth Llywodraeth y DU i ddatgarboneiddio'r system drafnidiaeth gyfan yn y DU.[xiv] Mae rhai agweddau ar y cynllun, megis yr ymrwymiad i roi terfyn ar werthu cerbydau petrol a diesel newydd erbyn 2030, yn berthnasol i'r DU gyfan. Ar gyfer meysydd eraill o fewn polisi trafnidiaeth sydd wedi'u datganoli, mae'r strategaeth yn nodi cynigion ar gyfer Lloegr yn unig, er enghraifft y *Strategaeth Fysiau Genedlaethol* (Mawrth 2021).[xv]

### Diwydiant:

**21** Mae'r *Strategaeth Datgarboneiddio Diwydiannol* yn nodi cynllun Llywodraeth y DU i leihau allyriadau ar draws diwydiant y DU oddeutu ddwy ran o dair erbyn 2035.[xvi] Ffocws y polisi yw manteisio ar gyfleoedd twf glan trwy fynd i'r afael â rhwystrau i ddatgarboneiddio, targedu ymyriadau i gyfyngu i'r eithaf ar ddadleoli carbon, a chyflawni prosiectau seilwaith mawr ar gyfer technolegau allweddol (er enghraifft, rhwydweithiau hydrogen) lle ceir budd cyffredin a bod y risg neu'r gost yn rhy fawr i'r sector preifat.

### Adeiladau:

**22** Mae'r *Strategaeth Gwres ac Adeiladau* (Hydref 2021) yn nodi sut y bydd y DU yn datgarboneiddio cartrefi ac adeiladau'r sectorau masnachol, diwydiannol a chyhoeddus.[xvii] Mae'n amlinellu cynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau ac i ddatblygu'r marchnadoedd sy'n ofynnol i bontio i dechnolegau gwres carbon isel. Mae uchelgeisiau DU-gyfan yn cynnwys dod â boeleri nwy naturiol newydd i ben yn raddol o 2035 i sicrhau bod bron pob system wresogi newydd a ddefnyddir yn 2050 yn rhai carbon-isel. Mae rhai polisïau a amlinellir yn y strategaeth yn rhai Lloegr-benodol, ac mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn cynhyrchu eu fframweithiau polisi eu hunain i ddatgarboneiddio stociau adeiladau.

TREFNIADAU LEDLED Y DU

## Pŵer:

**23** Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio'r sector pŵer erbyn 2035, yn amodol ar ddiogelwch y cyflenwad. Mae'n amcanu at wneud hyn trwy drawsnewid y sector ynni a disodli tanwyddau ffosil â thechnolegau ynni glân. Mae *Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain* (Ebrill 2022) a *Powering Up Britain: Energy Security Plan* (Mawrth 2023) yn egluro sut y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflawni hyn, gan nodi amcanion a mesurau allweddol sy'n ofynnol i bontio i seilwaith ynni glân newydd.[xviii]

## Hedfanaeth a morgludiant:

**24** Mae Chweched Gyllideb Garbon y DU yn ymgorffori cyfran y DU o allyriadau hedfanaeth a morgludiant rhyngwladol am y tro cyntaf. Mae'r strategaeth *Cynllun Trafnidiaeth Forol Lân* (Gorffennaf 2019) yn nodi cynlluniau Llywodraeth y DU i gyflawni llongau allyriadau sero yn nyfroedd y DU erbyn 2050 trwy reoleiddio newydd i helpu'r diwydiant i wireddu gwerth ymchwil a buddsoddi.[xix] Mae'r strategaeth *Jet Zero* (Gorffennaf 2022) yn nodi cynlluniau ar gyfer hedfan sero net erbyn 2050 gyda ffocws ar gydweithio sector cyfan i ddatblygu, profi a gweithredu datrysiadau sero net.[xx] Nod llywodraeth y DU yw cyhoeddi diweddariad o'r Cynllun Morwrol Glân yn 2023.

## Amaethyddiaeth a defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth

**25** Nod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yw bod 75% o ffermwyr yn Lloegr yn defnyddio arferion carbon-isel yn 2030, gan godi i 85% erbyn 2035. Fel rhan o'i *Chynllun Pontio Amaethyddol* (Tachwedd 2020) mae Defra hefyd wedi ymrwymo i newid y ffordd y mae tir yn cael ei reoli i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol trwy bolisïau rheoli tir amgylcheddol newydd.[xxi] Mae'r adran hefyd yn amcanu at warchod a chynyddu storfeydd carbon trwy raglenni plannu coed, adfer mawndiroedd ac adfer natur.

TREFNIADAU LEDLED Y DU

### Arall

**26** Yn ychwanegol at strategaethau sy'n cyfateb i sectorau penodol, mae gan Lywodraeth y DU strategaethau allweddol ar gyfer:

- **cyflenwi tanwydd a hydrogen**, gan gynnwys uchelgais i gyflawni hyd at 10GW o gapasiti cynhyrchu hydrogen carbon-isel erbyn 2030. Gallai hydrogen fod â rôl allweddol fel dewis sy'n disodli tanwyddau ffosil ac yn darparu ynni hyblyg ar gyfer pŵer, gwres a thrafnidiaeth, yn ogystal â datrysiad ar gyfer datgarboneiddio diwydiant trwm; a
- **dal nwyon tŷ gwydr**, gydag uchelgais i ddatblygu marchnadoedd a chymhellion i'w gwneud yn bosibl dal o leiaf 5 $MtCO_2e$ yn beirianegol erbyn 2030, gyda'r potensial i dyfu i oddeutu 80 $MtCO_2e$ erbyn 2050.

## Rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu'r DU

**27** Mae natur hollgynhwysol cyflawni sero net yn golygu bod gan yr hol gyrff llywodraethol, gan gynnwys adrannau, cyrff hyd braich ac asiantaethau gweithredol, rôl i'w chyflawni

**28** Mae gan rai adrannau rolau allweddol:

- Yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (ADYSN) sydd â chyfrifoldeb cyffredinol yn y Llywodraeth am gyflawni sero net a sicrhau bod y Llywodraeth gyfan yn gweithio'n effeithiol i gyflawni hynny. Hi hefyd sy'n gyfrifol am rai o'r sectorau yn yr economi â'r allyriadau uchaf gan gynnwys adeiladau (y tu allan i'r Adran ar gyfer Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (ACGTCh)), datgarboneiddio diwydiannol a phŵer.
- Trysorlys EF sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllidebau i adrannau'r Llywodraeth ac am bolisi cyllidol.
- Yr Adran Drafnidiaeth (AD) sy'n gyfrifol am gynllun datgarboneiddio'r sector yn y DU sydd â'r allyriadau nwyon tŷ gwydr uchaf (trafnidiaeth).
- Mae gan Defra a'r ACGTCh gyfrifoldeb polisi hefyd am wahanol sectorau yn yr economi ag allyriadau uchel. Yr ACGTCh hefyd yw stiward y Llywodraeth ar gyfer y system llywodraeth leol a dylai sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gweithredu'n effeithiol. Mae gan awdurdodau lleol eu hunain rôl allweddol o ran rhoi cymorth i leihau allyriadau ar lefel leol.
- Mae'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (SDGD) yn gweithio gydag adrannau eraill, a thrwy ei rhwydwaith dramor, i gefnogi a chyflawni strategaeth Cyllid Hinsawdd Ryngwladol y DU.

**29** Mae **Ffigur 3** yn nodi rôl adrannau allweddol y Llywodraeth ar draws y sectorau sydd â'r allyriadau nwyon tŷ gwydr uchaf a'r rhai â chyfrifoldeb am 'ffactorau galluogi' trawsbynciol ehangach ar gyfer cyflawni sero net.

## FFIGUR 3

Cyfrifoldeb polisi am sero net yn ôl adrannau'r Llywodraeth

**Yr Adran ar gyfer Diogelwch Ynni a Sero Net (ADYSN) sydd â chyfrifoldeb polisi ar y cyfan am sero net; mae deuddeg o adrannau eraill y Llywodraeth yn arwain neu'n cyd-arwain mewn sectorau penodol neu ar 'ffactorau galluogi' trawsbynciol i gyflawni sero net, allan o dair adran weinidogol ar hugain ar y cyfan**

| | SC | TEF | ABaM | Defra | ADYSN | AA | AD | AIGC | ACGTCh | AGATh | AGPh | SDGD | AALI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sectorau | | | | | | | | | | | | | |
| Trafnidiaeth | ● | | ● | ● | ● | | Arwain | ● | | | | | |
| Busnes / Diwydiant | ● | | ● | ● | Arwain | ● | | ● | | | | | |
| Adeiladau | ● | | ● | | Arwain | ● | | ● | Arwain | | | | |
| Pŵer a dal nwyon tŷ gwydr | ● | | ● | ● | Arwain | ● | | ● | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth, a Gwastraffe | ● | | ● | Arwain | ● | | | | | | | | |
| Themâu trawsbynciol | | | | | | | | | | | | | |
| Cyllid gwyrdd | | Arwain | ● | ● | Arwain | ● | | | ● | | | ● | |
| Gwyrddu'r Llywodraeth | ● | ● | ● | Arwain | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Arloesi | | ● | ● | ● | ● | | | | | Arwain | | | |
| Sgiliau | | ● | ● | ● | ● | Arwain | ● | | ● | | ● | | |
| Polisi masnach | | ● | Arwain | ● | ● | | | | | | | ● | |
| Caffael cyhoeddus | Arwain | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| Dylanwad byd-eang | ● | ● | ● | | ● | | | | | | | Arwain | |

**NODIADAU**

1 Mae'r ffigur hwn yn ddiweddariad i Ffigur 5 yn adroddiad Achieving Net Zero (Rhagfyr 2020) y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

2 SC = Swyddfa'r Cabinet; TEF = Trysorlys EF; ABM = Adran Busnes a Masnach; Defra = Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; AA = Yr Adran Addysg; AD = Yr Adran Drafnidiaeth; AIGC = Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol; ACGTCh = Yr Adran ar gyfer Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau; AGATh = Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg; AGPh = Yr Adran Gwaith a Phensiynau; SDGD = Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu; AALI = Adran Arall yn y Llywodraeth.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddogfennau'r Adran ar gyfer Diogelwch Ynni a Sero Net

TREFNIADAU LEDLED Y DU

**30** Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu trefniadau ar gyfer cydlynu'r prif adrannau sy'n rhan o gyflawni sero net:

- Mae'r Pwyllgor Materion Cartref ac Economaidd (Ynni, Hinsawdd a Sero Net) yn un o bwyllgorau'r Cabinet a gaiff ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weinidog ac sy'n gyfrifol am ystyried materion sy'n ymwneud ag ynni, ac am gyflawni strategaeth hinsawdd gartref a rhyngwladol y DU
- Mae'r Grŵp Gweithredu Adolygiad Integredig Newid Hinsawdd Net (IRIG) yn grŵp o uwch swyddogion o'r prif adrannau ar draws Llywodraeth y DU sydd â chyfrifoldeb am: sefydlu a gweithredu strategaeth drawslywodraethol ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd; a chwmpasu agweddau cartref a rhyngwladol ar natur, liniaru a chydnerthedd.[4]
- Yn cefnogi'r IRIG NH mae pedwar is-grŵp trawslywodraethol, gan gynnwys yr Is-Grŵp Gweithredu Adolygiad Integredig Sero Net (Sub-IRIG) sydd yn cynnwys cyfarwyddwyr sy'n gweithio ar draws Llywodraeth y DU a chanddynt gyfrifoldeb am sefydlu a gweithredu strategaeth drawslywodraethol ar gyfer cyflawni sero net.
- Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd yn grŵp a arweinir gan weinidogion ar draws gwledydd y DU a'i ddiben yw cefnogi ymgysylltu a chydweithio effeithiol ar gyflawni ymrwymiadau hinsawdd cartref a rhyngwladol y DU.

## Monitro deilliannau

**31** Cafodd y trefniadau monitro allweddol ar gyfer tracio cynnydd mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr eu nodi yn Neddf Newid Hinsawdd 2008, ac fe'u diwygiwyd ymhellach yn 2019 i adlewyrchu uchelgeisiau sero net Llywodraeth y DU. Mae hyn yn rhwymo Llywodraeth y DU i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero erbyn 2050 ac yn nodi'r llwybr i gyrraedd hynny trwy gyllidebau carbon. Mae'r targedau hyn sy'n rhwymo mewn cyfraith, a bennir 12 mlynedd ymlaen llaw ac sy'n seiliedig ar gyngor annibynnol y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yn cyfyngu ar allyriadau yn y DU dros gyfnodau cyllidebol pum mlynedd tan 2050.

4 Cyn mis Ionawr 2022 yr enw ar yr IRIG oedd Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol (NSIG).

## TREFNIADAU LEDLED Y DU

**32** Mae cynnydd y DU yn erbyn y cyllidebau carbon hyn yn cael ei fonitro gan ddwy set o ddatganiadau y maes Llywodraeth y DU yn eu gosod gerbron y Senedd:

- Datganiad blynyddol o allyriadau'r DU – sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU, symudiad unedau carbon a sefyllfa cyfrif carbon net y DU y flwyddyn honno.
- Datganiad terfynol ar gyfer y cyfnod cyllidebol – adroddiad tebyg a gyhoeddir ar ôl diwedd cyfnod pob cyllideb garbon, sy'n nodi sefyllfa derfynol allyriadau, unedau carbon a chyfrif carbon net y DU. I gyd-fynd â hwn cyflwynir asesiad sy'n nodi a gwrddwyd â'r gyllideb ac yn rhoi esboniadau os na chwrddwyd â hi.

**33** Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, y mae hefyd yn ofynnol yn ôl y Ddeddf Newid Hinsawdd ei fod yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Senedd ar gynnydd tuag at gwrdd â'r cyllidebau carbon, wedi gwneud sylw bod y ddwy gyllideb gyntaf wedi mynd y tu hwnt i'r targedau lleihau allyriadau a bod y drydedd (2018-2022) ar y trywydd iawn i wneud hynny hefyd.

**34** Mae'r Ddeddf Newid Hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i Lywodraeth y DU ddwyn polisïau gerbron i gyrraedd targedau'r cyllidebau carbon a'r targed sero net hirdymor. Ym mis Hydref 2021 fe wnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi'r Strategaeth Sero Net, a oedd yn mapio llwybr Llywodraeth y DU tuag at sero net. Ynddi, fe ymrwymodd Llywodraeth y DU i roi diweddariad ar gynnydd yn erbyn y llwybr tuag at gyflawni sero net a nodir yn y strategaeth, fel rhan o'i hymateb blynyddol i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys diweddariad yn erbyn y 24 dangosydd cynnydd tuag at sero net a nodir yn yr adroddiad, crynodeb o feysydd cynnydd allweddol a sylwadau ar newidiadau cyd-destunol a allai effeithio ar y llwybr tuag at gyflawni. Fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei diweddariad cyntaf ym mis Mawrth 2023.


**35** Gan edrych ymlaen at y tair cyllideb sy'n weddill o'r rhai a bennwyd, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn nodi "nad yw allyriadau'n lleihau ar y cyflymder sy'n ofynnol i gwrdd â chyllidebau yn y dyfodol". Y Chweched Gyllideb Garbon (2033-2037), sef y ddiweddaraf i gael ei phennu, oedd y gyntaf i wreiddio'r targed sero net erbyn 2050 fel rhan o'i hamcangyfrifon ac mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi gwneud sylwadau am gynlluniau cyfredol i gyflawni'r gyllideb hon fel rhai diffygiol, gyda "risgiau sylweddol neu fwlch polisi ar gyfer dros draean o'r lleihad mewn allyriadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r Chweched Gyllideb Garbon". Ar ben hynny, yn ei adroddiad diweddar (Mehefin 2023) ar gynnydd o ran lleihau allyriadau, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi codi pryderon pellach ynghylch cyflymder y cynnydd.

## TREFNIADAU LEDLED Y DU

**36** Mae *Cynllun Cyflawni Cyllidebau Carbon* (Mawrth 2023) Llywodraeth y DU yn nodi'r pecyn o gynigion a pholisïau y mae Llywodraeth y DU yn disgwyl y byddant yn arwain at gyrraedd ei thargedau carbon (Cyllidebau Carbon 4, 5 a 6), gydag asesiad o'r risg i gyflawni a chamau lliniaru ar draws sectorau.

**37** Mewn perthynas ag ymrwymiadau rhyngwladol, mae Llywodraeth y DU yn paratoi Cyfraniadau a Bennir yn Genedlaethol (NDCs), fel rhan o Gytundeb Paris (cytundeb rhyngwladol gyda nod i gyfyngu ar y tymheredd cyfartalog byd-eang cynyddol). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddi ymhelaethu ynglŷn â sut y mae'n bwriadu lleihau allyriadau cenedlaethol yn ôl yr hyn sy'n ofynnol i gyrraedd nodau trosfwaol Cytundeb Paris.

TREFNIADAU YN YR ALBAN



# Trefniadau yn yr Alban

## Cafodd yr adran a ganlyn ei drafftio gan Audit Scotland.

## Roedd tîm yr astudiaeth yn cynnwys: James Goodfellow a Rebecca Seidel dan gyfarwyddyd Cornilius Chikwama.

Yn ddiweddar mae Audit Scotland wedi cyhoeddi'r allbynnau canlynol, ymhlith eraill, sy'n ymwneud â sero net:

- How the Scottish Government is set up to deliver climate change goals (Ebrill 2023)[xxii]
- Auditing climate change: our strategy (Rhagfyr 2022)[xxiii]
- Scotland's councils' approach to addressing climate change (Medi 2022)[xxiv]
- Addressing climate change in Scotland (Mawrth 2022)[xxv]
- Auditing climate change (Hydref 2021)[xxvi]

TREFNIADAU YN YR ALBAN

## Ymrwymiadau a deddfwriaeth sy'n drosfwaol

38 Mae **Ffigur 4** a **Ffigur 5 yn** darparu trosolwg o'r fframweithiau statudol a pholisi allweddol ar gyfer yr Alban yn y cyd-destun datganoledig.

### FFIGUR 4
Crynodeb o'r fframwaith statudol ar gyfer datgarboneiddio yn yr Alban

**Climate Change (Scotland) Act 2009**

Trwy Climate Change (Scotland) Act 2009, ac is-ddeddfwriaeth, gosodwyd gofynion ar weinidogion yr Alban i bennu targedau allyriadau blynyddol ac adrodd arnynt. Fe wnaed darpariaethau i fynd i'r afael â lliniaru ac ymaddasu i effeithiau newid hinsawdd, a rhoddwyd pwerau i weinidogion osod dyletswyddau newid hinsawdd ar gyrff cyhoeddus.

Pennwyd targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% erbyn 2050 (o linell sylfaen 1990) gyda tharged interim i gyflawni gostyngiad o 42% erbyn 2020. Cafodd y targedau hyn eu diwygio'n ddiweddarach (gweler isod).

**Climate Change (Emissions Reduction Targets) (Scotland) Act 2019**

Yn 2019, fe ddatganodd Llywodraeth yr Alban ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd ac fe ddiwygiwyd Deddf Newid Hinsawdd (Yr Alban) 2009 gan Climate Change (Emissions Reduction Targets) (Scotland) Act 2019. Fe wnaeth y diwygiad hwn gynyddu'r uchelgais yn nhargedau lleihau allyriadau'r Alban trwy bennu targed i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2045 (o linell sylfaen 1990) a diwygio targedau lleihau allyriadau interim a blynyddol.

Ffynhonnell: Archwilio'r Alban

### FFIGUR 5
Llinell amser strategaethau a pholisïau datganoledig sy'n sail i ddatgarboneiddio yn yr Alban

**Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2045 – bum mlynedd yn gynharach na gweddill y DU. Mae'r broses o gyflawni cynlluniau a strategaethau cysylltiedig yn gymhleth ac yn esblygu'n barhaus. Mae llinell amser o'r prif gynlluniau a strategaethau sydd wedi'u bwriadu i gyflawni sero net a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban i'w gweld isod.**

| Strategaeth/cynllun allweddol | Dyddiad cyhoeddi | Crynodeb |
|---|---|---|
| Low-Carbon Scotland: Meeting the Emissions Reduction Targets 2010–2022 [xxvii] | Mawrth 2011 | Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y gall yr Alban gyrraedd targedau blynyddol ar gyfer gostyngiadau mewn allyriadau hyd at 2022. |
| Low-Carbon Scotland: Meeting the Emissions Reduction Targets 2013–2027 [xxviii] | Mehefin 2013 | Ail adroddiad Llywodraeth yr Alban ar gynigion a pholisïau ar gyfer cyrraedd ei thargedau newid hinsawdd. Mae'n nodi sut y gall yr Alban gyrraedd ei thargedau blynyddol statudol ar gyfer gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y cyfnod 2013–2027. |
| Climate Change Plan: The Third Report on Proposals and Policies 2018–2032 [xxix] | Chwefror 2018 | Trydydd adroddiad Llywodraeth yr Alban ar gynigion a pholisïau sy'n nodi cynlluniau datgarboneiddio hyd at 2032. |
| Update to the Climate Change Plan 2018–2032: Securing a Green Recovery on a Path to Net Zero [xxx] | Rhagfyr 2020 | Diweddariad ar Gynllun Newid Hinsawdd 2018 – 2032, sy'n myfyrio ynghylch effeithiau pandemig COVID-19 ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynlluniau a thargedau sectoraidd perthnasol a nodwyd yn y Cynllun Newid Hinsawdd blaenorol. |

Ffynhonnell: Llywodraeth yr Alban

# Strategaethau allweddol yn ôl sector

## Trafnidiaeth

**39** Mae'r National Transport Strategy Delivery Plan (2022–2023) gan Lywodraeth yr Alban (Mehefin 2022) yn amcanu at ddatgarboneiddio system drafnidiaeth yr Alban erbyn 2045.[xxxi] Ceir nifer o dargedau interim yn y cynllun, gan gynnwys:

- lleihau cilomedrau ceir 20% erbyn 2030;
- datgarboneiddio gwasanaethau rheilffyrdd ar gyfer teithwyr erbyn 2035; a
- datgarboneiddio hediadau rheolaidd yn yr Alban yn llawn erbyn 2040.

**40** Disgwylir i Lywodraeth yr Alban gyhoeddi fersiwn derfynol o'r trywydd tuag at leihau cilomedrau ceir 20% erbyn 2030, yn ystod 2023.

## Diwydiant

**41** Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei dogfen Draft Energy Strategy and Just Transition Plan sy'n nodi uchelgeisiau allweddol ar gyfer dyfodol ynni yn yr Alban.[xxxii] Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo diwydiant i gyflawni gostyngiad o 43% mewn allyriadau diwydiannol erbyn 2032 (yn erbyn llinell sylfaen 2018). Mae Llywodraeth yr Alban yn amcanu at roi cymorth i ddatgarboneiddio'r sector ynni trwy:

- roi cymorth ariannol i helpu i ddatgarboneiddio diwydiannau ynni-ddwys trwy'r Scottish Industrial Energy Transformational Fund a'r Low Carbon Manufacturing Challenge Fund;
- tyfu gweithgarwch i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a chynyddu i'r eithaf y manteision cymunedol sy'n deillio o brosiectau ynni;
- sicrhau bod gweithlu a chyflogwyr yr Alban yn meddu ar y sgiliau i gefnogi'r broses o bontio i sero net; a
- chefnogi diwydiant trwy'r Scottish Industrial Energy Transformation Fund, yr Energy Transition Fund a'r Emissions Trading Scheme i leihau'r galw a datgarboneiddio'r defnydd o ynni.

TREFNIADAU YN YR ALBAN

## Adeiladau

**42** Caiff y camau y bydd Llywodraeth yr Alban yn eu cymryd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o gartrefi, gweithleoedd ac adeiladau cymunedol yr Alban eu hamlinellu yn ei Heat in Buildings Strategy (Hydref 2021), gyda'r amcan o fod ag adeiladau heb unrhyw allyriadau erbyn 2045.[xxxiii] Caiff nifer o nodwyr interim eu nodi yn y strategaeth, gan gynnwys:

- trosi 50,000 o adeiladau annomestig a miliwn o gartrefi'n rhai sy'n defnyddio systemau gwresogi heb unrhyw allyriadau erbyn 2030;
- yr angen i gynyddu'r systemau gwresogi heb unrhyw allyriadau a osodir gyda'r gyfradd osod flynyddol yn cyrraedd brig o fwy na 200,000 o systemau'r flwyddyn (amcangyfrifir mai 3,000 y flwyddyn yw'r gyfradd osod gyfredol yn ôl y strategaeth); ac
- ymrwymiad i sicrhau y bydd yr holl gartrefi newydd a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol yn rhai heb unrhyw allyriadau erbyn 2026.

## Pŵer

**43** Y targed system gyfan yn Draft Energy Strategy and Just Transition Plan (Ionawr 2023) yr Alban yw cyflawni allyriadau sero net erbyn 2045, a bod yr hyn sy'n cyfateb i 50% o'r ynni ar gyfer y gwres, trafnidiaeth a thrydan a ddefnyddir yn yr Alban yn cael ei gyflenwi o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030.[xxxiv]

## Hedfanaeth a morgludiant

**44** Mae ymrwymiad i ddatgarboneiddio 30% o'r fferïau sy'n eiddo i'r Llywodraeth erbyn 2032 a'r holl hediadau rheolaidd o fewn yr Alban erbyn 2040 wedi'i gynnwys yn Niweddariad Llywodraeth yr Alban i'r Cynllun Newid Hinsawdd 2018-2020 (Rhagfyr 2020). Mae astudiaeth a gomisiynwyd gan Transport Scotland ar Decarbonising the Scottish Transport Sector (Medi 2021) yn amlygu heriau cyflawni'r deilliannau sy'n ofynnol i ddatgarboneiddio'r sectorau hedfanaeth a morgludiant.[xxxv] Lansiwyd ymgynghoriad dilynol ym mis Hydref 2021 i oleuo datblygiad strategaeth hedfanaeth gyntaf yr Alban, yr oedd disgwyl iddi gael ei chyhoeddi'n gynnar yn 2023.

## Amaethyddiaeth a defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth

**45** Cynigir gostyngiad o 9% mewn allyriadau amaethyddol ac adfer 250,000 hectar o fewndiroedd sydd wedi dirywio yng Nghynllun Newid Hinsawdd yr Alban 2018-2032 (Chwefror 2018), yn ogystal ag ymrwymiad i gynyddu gorchudd coetiroedd o 18% i 21% erbyn 2032. Mae'r Cynllun hefyd yn amlygu pwysigrwydd gweithio gyda ffermwyr i hybu a hyrwyddo arferion carbon-isel. Bydd gwaith i drawsnewid y sector amaethyddiaeth yn cael ei arwain trwy'r Rhaglen Trawsnewid Amaethyddiaeth gyfredol a'r Bil Amaethyddiaeth arfaethedig.

## Gwastraff

**46** Y nod trosfwaol ar gyfer gwastraff yng Nghynllun Newid Hinsawdd yr Alban (Chwefror 2018) yw bod yr Alban yn cyflawni economi gwbl gylchol. Mae amcanion cysylltiedig yn cynnwys:

- bod 70% o'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu erbyn 2025;
- gostyngiadau mewn gwastraff bwyd o draean erbyn 2025 (yn erbyn llinell sylfaen 2013);
- gostyngiad o 5% yn y gwastraff ar y cyfan a anfonir i safleoedd tirlenwi; a
- newid i ddefnydd ac arferion mwy cynaliadwy.

**47** Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban fersiwn ddrafft o'r Circular Economy (Scotland) Bill i Senedd yr Alban ym mis Mehefin 2023. Mae hwn yn cynnwys darpariaethau i gyhoeddi strategaeth yr economi gylchol o leiaf bob pum mlynedd a datblygu targedau statudol.

## Nwyon wedi'u fflworeiddio

**48** Fel rhan o uchelgais Llywodraeth yr Alban i gyflawni allyriadau sero net ar gyfer yr Alban erbyn 2045, cafodd gwaharddiad ar ddefnyddio mathau penodol o nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio ('Nwyon F') â photensial cynhesu byd-eang o fwy na 2,500 i drin neu ail-lenwi systemau oeri ei gyflwyno yn 2020.

## Allyriadau'r sector cyhoeddus

**49** Cyflwynwyd trefn adrodd gan Lywodraeth yr Alban yn 2015 sy'n golygu bod rhaid i fwy na 180 o brif gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiad i weinidogion yr Alban ar y modd y maent yn cydymffurfio â dyletswyddau newid hinsawdd yn flynyddol.

**50** Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno adroddiadau cydymffurfio i'r Sustainable Scotland Network (SSN), sef rhwydwaith sector cyhoeddus yr Alban ar gynaliadwyedd a newid hinsawdd.


**51** Mae adroddiadau cydymffurfio'n cynnwys gwybodaeth am dargedau lleihau allyriadau, sut y bydd cyrff yn cysoni gwariant a defnydd o adnoddau, a chamau ymaddasu. Mae'r SSN yn darparu dadansoddiad blynyddol o adroddiadau'r sector cyhoeddus yn yr Alban.

# Rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu'r Alban

**52** Mae'r cyfrifoldeb am lywio uchelgeisiau newid hinsawdd yn rhychwantu nifer o ysgrifenyddion cabinet ac adrannau gweinidogol yn Llywodraeth yr Alban. Mae **Ffigur 6** isod yn dangos y strwythurau llywodraethu gweinidogol sydd yn eu lle. Mae llinellau atebolrwydd ar gyfer newid hinsawdd yn gymhleth oherwydd ei natur drawsbynciol.

**FFIGUR 6**

Cyfrifoldebau gweinidogol am newid hinsawdd yn yr Alban




Ffynhonnell: Archwilio'r Alban

## TREFNIADAU YN YR ALBAN

**53** Yn dilyn datgan ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd a phennu'r targed sero net erbyn 2045 yn 2019, rhoddodd Llywodraeth yr Alban newidiadau ar waith i'w strwythur llywodraethu corfforaethol i wreiddio datgarboneiddio ymhellach yn ei swyddogaethau.

**54** Erbyn diwedd 2021, cyflwynwyd swyddi newydd gan gynnwys Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth a Chyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Sero Net. Sefydlwyd Is-bwyllgor y Cabinet ar gyfer yr Argyfwng Hinsawdd hefyd i ddarparu arweinyddiaeth a threfniadau cydlynu ar draws y Llywodraeth ar gyfer ymdrechion i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

**55** Cefnogir yr Is-bwyllgor gan Fwrdd Rhaglen yr Argyfwng Hinsawdd Byd-eang, a sefydlwyd gan Lywodraeth yr Alban i ddarparu goruchwyliaeth a sicrwydd ar gyfer camau gweithredu mewn ymateb i newid hinsawdd ar lefel gorfforaethol a hybu dull traws-lywodraethol, gydag aelodaeth o adrannau ar draws y llywodraeth.

**56** Cyhoeddodd Audit Scotland adroddiad ym mis Ebrill 2023 ar How the Scottish Government is set up to deliver climate change goals.[xxxvi] Amlygodd hwn fod Llywodraeth yr Alban wedi gwella'r modd y mae'n ei threfnu ei hun i roi cymorth i gyrraedd ei nodau newid hinsawdd ers i'w Phrif Weinidog blaenorol ddatgan ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd yn 2019. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad fod angen gwelliannau pellach i drefniadau llywodraethu a rheoli risg.

## Monitro deilliannau

**57** Mae'n ofynnol bod gweinidogion yr Alban yn adrodd yn flynyddol ar dargedau lleihau allyriadau dan y gofynion adrodd statudol a nodir yn y Climate Change (Emissions Reduction Targets) (Scotland) Act 2019.

**58** Tanategir y broses o adrodd ar allyriadau yn yr Alban gan y fframwaith monitro yng nghyhoeddiad diweddaraf Llywodraeth yr Alban, Update to the Climate Change Plan (Rhagfyr 2020) ac mae wedi'i strwythuro ar draws tair lefel:

- Ceir mesur ar y cyfan o gynnydd gan sectorau a'r economi gyfan trwy ystadegau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Caiff llwyddiant polisïau o ran cyflawni'r newidiadau y mae eu hangen ei fesur trwy ddangosyddion deilliannau polisi.
- Caiff y modd y gweithredir polisïau a chynigion penodol ei asesu trwy offer tracio polisi.

## TREFNIADAU YN YR ALBAN

**59** Mae cynnydd tuag at bontio cyfiawn yn cael ei asesu trwy'r fframwaith hefyd. Mae hyn yn cynnwys monitro traws-sectoraidd ar gyfer dangosyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n canolbwyntio ar y gweithlu, cyflogwyr a chymunedau.

**60** Caiff adroddiadau monitro'u cyhoeddi'n flynyddol a'u darparu ar gyfer Senedd yr Alban. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu diweddariad ar y cynnydd yn erbyn y polisïau a'r amcanion a nodir yng Nghynllun Newid Hinsawdd Llywodraeth yr Alban. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Climate Change Plan Monitoring Report diweddaraf ym mis Mai 2023.[xxxviii]

**61** Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Scottish Greenhouse Gas Statistics ym mis Mehefin 2023, a hwnnw'n cwmpasu allyriadau hyd at 2021.[xxxix] Gan ddefnyddio'r dull a argymhellir gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gyfer adrodd ar allyriadau (a adwaenir fel y Cyfrif Nwyon Tŷ Gwydr), roedd yr ystadegau'n dangos bod allyriadau'r Alban wedi lleihau 49.9% rhwng llinell sylfaen 1990 a 2021. Roedd hyn ychydig yn brin o'r targed interim i gyflawni gostyngiad o 51.1% mewn allyriadau dros yr un cyfnod.

TREFNIADAU YNG NGHYMRU

# Trefniadau yng Nghymru

## Cafodd yr adran a ganlyn ei drafftio gan Archwilio Cymru.

## Roedd tîm yr astudiaeth yn cynnwys: Sian Davies, Stephen Lisle a Chris Pugh dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Yn ddiweddar mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi'r allbynnau canlynol, ymhlith eraill, sy'n ymwneud â sero net:

- Gwaith mewn amryw gynghorau yng Nghymru ar leihau carbon, gan gynnwys Cyngor Sir Gaerfyrddin – Diweddariad Cynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihau Carbon (Rhagfyr 2022)[xl]
- Parodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer carbon sero net erbyn 2030: Adroddiad tystiolaeth (Awst 2022)[xli]
- Parodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer carbon sero net erbyn 2030 (Gorffennaf 2022)[xlii]
- Gwaith mewn awdurdodau tân ac achub ar leihau carbon, gan gynnwys Awdurdod Tân ac Achub De Cymru – Lleihau Allyriadau Carbon (Ebrill 2022)[xliii]

TREFNIADAU YNG NGHYMRU

## Ymrwymiadau a deddfwriaeth sy'n drosfwaol

**62** Mae **Ffigur 7** a **Ffigur 8** yn darparu trosolwg o'r fframweithiau statudol a pholisi allweddol ar gyfer Cymru yn y cyd-destun datganoledig.

**FFIGUR 7**

Crynodeb o'r fframwaith statudol ar gyfer datgarboneiddio yng Nghymru

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Mae'n nodi dull ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n cynnwys targed erbyn 2050 ar gyfer lleihau allyriadau ac yn gosod dyletswydd ar weinidogion Cymru i bennu targedau a chyllidebau carbon interim ac adrodd arnynt.

**Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018**

Fe wnaeth y rheoliadau ddarpariaeth ar gyfer targedau allyriadau interim dan Ran 2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd y targedau interim yn nodi y dylai 'allyriadau net Cymru' o ran nwyon tŷ gwydr penodol yn 2050 fod o leiaf 80% yn is nag yn y flwyddyn sylfaen berthnasol ar gyfer pob nwy (fel a nodir yn adran 38 y Ddeddf). Cafodd y targedau hyn eu diwygio'n ddiweddarach (gweler isod).

**Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Daeth y rhain i rym yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Mae'r diwygiad yn pennu targedau ar gyfer lleihau carbon 63% yng Nghymru erbyn 2030, 89% erbyn 2040, a 100% erbyn 2050 (targed sero net). Mae hefyd yn pennu cyllidebau carbon cysylltiedig, sy'n rhoi cap ar faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr a gaiff eu hallyrru dros gyfnodau o bum mlynedd hyd at 2050.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Daeth y Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf yn amcanu at helpu cyrff i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â heriau hirdymor. Bydd rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith mewn meysydd allweddol fel caffael, cynllunio'r gweithlu a chyllid yn helpu i gyflawni'r agenda ddatgarboneiddio hefyd.

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru

## TREFNIADAU YNG NGHYMRU

### FFIGUR 8
Llinell amser o strategaethau a pholisïau datganoledig sy'n sail i ddatgarboneiddio yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Gorffennaf 2017 | Fe bennodd Llywodraeth Cymru uchelgais i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.[xliv] |
| Mawrth 2019 | Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel statudol cyntaf, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.[xlv] |
| Ebrill 2019 | Fe wnaeth Llywodraeth Cymru Ddatgan Ei Bod Hi'n Argyfwng Ar yr Hinsawdd.[xlvi] |
| Tachwedd 2019 | Fe wnaeth Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd nodi camau gweithredu Llywodraeth Cymru ar risgiau a gaiff eu categoreiddio'n rhai sy'n 'fwy o frys' yng nghrynodeb Asesu Risg Newid Hinsawdd y DU ar gyfer Cymru.[xlvii] |
| Mawrth 2021 | Fe wnaeth Senedd Cymru bennu targedau cyfreithiol newydd i leihau carbon 63% erbyn 2030, 89% erbyn 2040, a 100% erbyn 2050 (targed sero net).[xlviii] |
| Mawrth 2021 | Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru 2021–2030.[xlix] Fe'i datblygwyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ac roedd yn pennu targedau penodol ar gyfer lleihau carbon yn y GIG yng Nghymru. |
| Mai 2021 | Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw sector cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd ar garbon sero-net a'r daenlen adrodd carbon sero-net i alluogi'r sector cyhoeddus i gofnodi allyriadau/adrodd arnynt yn gyson.[l] |
| Mehefin 2021 | Fe wnaeth y Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 gan Lywodraeth Cymru nifer o ymrwymiadau i wreiddio'r argyfwng hinsawdd ym mhopeth a wna.[li] |
| Gorffennaf 2021 | Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ailgadarnhau ei hymrwymiad a chyhoeddi Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru.[lii] |
| Hydref 2021 | Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025), a oedd yn nodi'r strategaeth ar y cyfan ar gyfer sero net yng Nghymru. Mae'n cwmpasu wyth sector allyriadau (gweler Ffigur 9). Mae'n canolbwyntio ar yr Ail Gyllideb Garbon, ond mae hefyd yn adeiladu sylfeini ar gyfer y Drydedd Gyllideb Garbon (2026–2030).[liii]<br><br>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gweithio gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan 2021-2025 hefyd. Mae hwn yn nodi dull 'Cymru ar y Cyd', lle mae Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, busnesau a chymunedau'n cydweithio mewn ymateb i argyfwng yr hinsawdd. |
| Ebrill 2022 | Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i Gweithio gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan 2021-2025.[liv] |
| Mehefin 2022 | Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddull Ymgysylltu Llywodraeth Cymru Mewn Perthynas â Newid Hinsawdd 2022–26 a oedd yn nodi sut y bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn datblygu'r dull 'Cymru ar y Cyd' ymhellach.[lv] |

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru


TREFNIADAU YNG NGHYMRU

## Strategaethau allweddol yn ôl sector

**63** Mae **Ffigur 9** yn crynhoi'r datganiadau uchelgais sector-benodol yn Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025).[lvi] Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n amlygu bod cyflawni'n llwyddiannus yng Nghymru'n ddibynnol ar gamau gweithredu Llywodraeth y DU mewn meysydd allweddol.

**FFIGUR 9**

### Crynodeb o ddatganiadau uchelgais sector-benodol o Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2

| | |
|---|---|
| **Cynhyrchu trydan a gwres**  | Erbyn 2025, caiff 1GW o gynhwysedd ynni adnewyddadwy ychwanegol ei osod, ac o 2021 ni chaiff safleoedd cynhyrchu ynni newydd sy'n llosgi tanwyddau ffosil heb systemau rheoli carbon eu hadeiladu yng Nghymru.[1]<br><br>Caiff yr holl safleoedd cynhyrchu ynni presennol sy'n defnyddio nwy heb systemau rheoli carbon eu tynnu allan o'r system erbyn 2035 a daw unrhyw gyflenwad ychwanegol o orsafoedd ynni wedi'u datgarboneiddio o 2035 ymlaen fan bellaf. |
| **Trafnidiaeth**  | Lleihau allyriadau ym maes cludo teithwyr 22% yn 2025 a 98% yn 2050, trwy leihau'r galw, newid dulliau teithio a mabwysiadu technolegau carbon isel.<br><br>Lleihau nifer y milltiroedd car a deithir y pen 10% erbyn 2030 a chynyddu cyfran y teithiau trwy ddull teithio cynaliadwy i 35% erbyn 2025 a 39% erbyn 2030.<br><br>Erbyn 2025, bydd 10% o deithiau gan bobl mewn ceir yn digwydd mewn ceir heb unrhyw allyriadau a bydd 48% o'r ceir newydd a werthir yn rhai heb unrhyw allyriadau. |
| **Adeiladau preswyl**  | Erbyn 2025, disgwylir y bydd mesurau ôl-osod i leihau faint o wres sy'n cael ei golli wedi'u cwblhau mewn 148,000 o dai yng Nghymru, gan amcanu at symud i ffwrdd oddi wrth danwyddau ffosil, trwy gynyddu cyfran y gwres sydd wedi'i drydaneiddio 3%.<br><br>Erbyn 2025, bydd pob tŷ fforddiadwy newydd yng Nghymru'n cyrraedd safon carbon sero net. Hefyd, yr uchelgais yw y bydd pob datblygwr cartrefi newydd yn mabwysiadu safonau sero net Llywodraeth Cymru yn y Gofynion ansawdd datblygu ar gyfer cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol: 2021.[lvii] |
| **Diwydiant a busnes**  | Erbyn 2025, disgwylir gweld gostyngiad o 4% yn y defnydd o ynni gan ddiwydiant o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd ynni, cynnydd o 3% ar gyfartaledd ar gyfer trydaneiddio mewn prosesau diwydiannol, a thyfu hydrogen fel tanwydd 3% ar gyfartaledd.<br><br>Disgwylir y bydd Strategaeth Datgarboneiddio Diwydiannol sero net Llywodraeth y DU yn galluogi mwy o drydaneiddio, newid tanwydd a dal a storio carbon o'r 2030au.[lviii] |
| **Amaethyddiaeth**  | Paratoi'r sector i bontio i ffordd newydd o weithio, gan leihau ôl troed carbon busnesau ar y cyfan gan ystyried Deddf Amaeth (Cymru) 2023, sy'n sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer polisi amaethyddol yn y dyfodol.<br><br>Bydd datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy'n cefnogi arferion ffermio carbon isel a newid defnydd tir. Mae hyn wedi'i fwriadu i leihau allyriadau ffermydd trwy ffordd well o reoli da byw, tir a thail. Bydd deg y cant o dir amaethyddol yn cefnogi plannu coed erbyn 2050. |

## TREFNIADAU YNG NGHYMRU

**FFIGUR 9** *continued*

### Crynodeb o ddatganiadau uchelgais sector-benodol o Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2

| | |
|---|---|
| **Defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth**  | Cynyddu cyfraddau creu coetir, gan gefnogi cyfanswm o 43,000 o hectarau o goetir newydd erbyn 2030 a 180,000 o hectarau erbyn 2050.<br><br>Bydd dros 3,000 o hectarau o fewndir ar lwybr adfer erbyn 2025. |
| **Rheoli gwastraff**  | Parhau i adeiladu ar gryfderau er mwyn dod yn wlad ddiwastraff erbyn 2050 fel na fydd braidd dim deunyddiau'n cael eu claddu na'u llosgi, gan gyrraedd cyfradd ailddefnyddio neu ailgylchu o 100%.<br><br>Parhau i anfon llai a llai o wastraff i safleoedd tirlenwi, gan flaenoriaethu'r broses o leihau gwastraff bioddiraddadwy i lefel sydd mor agos â phosibl at sero erbyn 2025. Erbyn 2025, bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd tirlenwi'n lleihau 19% o'i gymharu â 2019. |
| **Y sector cyhoeddus**  | Yr uchelgais yw y bydd y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn sero net erbyn 2030, gyda chymorth y trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru.[lix] |

**Nodyn**

1 Mae 'heb systemau rheoli carbon' yn cyfeirio at ddefnyddio tanwyddau ffosil i gynhyrchu pŵer heb unrhyw fesurau i leihau allyriadau, megis technolegau dal carbon.

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru

TREFNIADAU YNG NGHYMRU

## Rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu Cymru

**64** Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod newid hinsawdd yn gyfrifoldeb i bawb a bod yn rhaid wrth ddull cydweithredol er mwyn cyflawni sero net. O fewn strwythur sefydliadol Llywodraeth Cymru, mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am ei chamau gweithredu ei hun ar ddatgarboneiddio trwy ddull wedi'i ffedereiddio.

**65** Ym mis Mai 2021, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru rolau newydd gweinidog a dirprwy weinidog newid hinsawdd. Hefyd, fe wnaeth proses ailstrwythuro sefydliadol o fis Ebrill 2022 ddwyn ynghyd y tîm newid hinsawdd canolog bach gyda thimau'n gyfrifol am lawer o'r sectorau allyriadau allweddol dan Gyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae'r tîm canolog yn darparu arweinyddiaeth ehangach ac yn rhoi cyngor ehangach ynghylch polisi. Mae hefyd yn gyfrifol am bolisïau a rhaglenni penodol, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, ac am gyfrannu at fframwaith polisi Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

**66** Mae Bwrdd Portffolio Newid Hinsawdd yn goruchwylio'r dull strategol o ymdrin â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ar draws Llywodraeth Cymru. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol Newis Hinsawdd a Materion Gwledig sy'n cadeirio'r Bwrdd ac mae'n cynnwys uwch aelodau o staff o feysydd allweddol sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd neu yr effeithir arnynt gan newid hinsawdd. Nod y Bwrdd yw sicrhau bod y rhai â chyfrifoldebau polisi neu weithredol perthnasol ar draws wyth sector (deiliaid mandad) yn atebol am eu gweithredoedd. Mae'n cael adroddiadau ar gynnydd mewn perthynas â gweithgarwch newid hinsawdd ac yn cyflwyno argymhellion i weinidogion ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol.

**67** Caiff strwythurau eraill i helpu i gyflawni sero net ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a llywodraeth leol, eu disgrifio isod:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd i roi cymorth i gyflawni'r Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030. Mae bwrdd y rhaglen hefyd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar y cyllid grant dan y Rhaglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd.
- Mae swyddogion o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru'n cyd-gadeirio'r Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol. Nod y panel yw arwain llywodraeth leol, ei chefnogi a darparu cyfeiriad strategol ar ei chyfer ar ei llwybr tuag at sero net. Mae'n adrodd yn ffurfiol wrth Gyngor Partneriaeth Cymru sy'n hybu cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.

TREFNIADAU YNG NGHYMRU

## Monitro deilliannau

**68** O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad terfynol ar ôl cyfnod pob cyllideb garbon, yn amlinellu pa un a ydynt wedi cwrdd â'r gyllideb/cyrraedd y targed. Bydd angen gwneud hyn o fewn dwy flynedd ar ôl y cyfnod cyllidebol neu flwyddyn y targed interim. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad Terfynol ar gyfer y Gyllideb Garbon Gyntaf a Tharged Interim 2020 ym mis Rhagfyr 2022. Pennwyd gostyngiad o 27% fel targed interim ar gyfer 2020. Aethpwyd y tu hwnt i'r targed interim gan bod gostyngiad o 39.2% wedi cael ei gyflawni.[5]

**69** Pennwyd gostyngiad cyfartalog o 23% fel y Gyllideb Garbon Gyntaf (sy'n cyfateb i gyfanswm cyllideb o 212,933 o gilotunelli cyfwerth â CO2 (ktCO2e)). Roedd sefyllfa derfynol Cyfrif Allyriadau Net Cymru ar gyfer y gyllideb garbon yn dangos gostyngiad o 27.8% (cyfanswm cyllideb o 199,718 ktCO2e). Felly, fe gwrddwyd â chyllideb garbon Cymru ar gyfer Cymru hefyd.

**70** Mae Cymru bellach yng nghyfnod ei hail gyllideb garbon. Mae Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021–2025) yn nodi trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro ac adrodd.[lxi]

**71** Mae'r trefniadau adrodd a amlinellir uchod yn ymwneud â'r broses adrodd ar y cyfan ar gyfer Cymru fel sy'n ofynnol dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi pennu gofynion adrodd penodol ar gyfer y sector cyhoeddus, fel a ddisgrifiwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030.[lxii]

5 Pennwyd y targed interim hwn ar gyfer lleihau carbon yn Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018.

TREFNIADAU YNG NGOGLEDD IWERDDON

# Trefniadau yng Ngogledd Iwerddon

**Cafodd yr adran a ganlyn ei drafftio gan Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.**

**Roedd tîm yr astudiaeth yn cynnwys: Karen Costley ac Adam Jarman dan gyfarwyddyd Patrick Barr.**

Yn dilyn cyflwyno'r Climate Change (NI) Act ym mis Mawrth 2022, mae Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon wrthi'n datblygu ei blaenraglen waith, a bydd cynlluniau adrannau Gogledd Iwerddon a'u cynnydd tuag at gyflawni sero net yn cael eu cynnwys ynddi.



TREFNIADAU YNG NGOGLEDD IWERDDON

## Ymrwymiadau a deddfwriaeth sy'n drosfwaol

**72** Mae **Ffigur 10** a **Ffigur 11** yn darparu trosolwg o'r fframweithiau statudol a pholisi allweddol ar gyfer Gogledd Iwerddon yn y cyd-destun datganoledig.

**FFIGUR 10**
Crynodeb o'r fframwaith statudol ar gyfer datgarboneiddio yng Ngogledd Iwerddon

Pasiwyd Climate Change Act (Northern Ireland)

Y prif darged o fewn y Ddeddf yw sero net erbyn 2050 (heb fod angen lleihau methan o fwy na 46%) a thargedau cyfamserol ar gyfer 2030 a 2040. Mae hefyd targed bydd o leiaf 80% o'r defnydd o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030.

Ffynhonnell: chrynodeb Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon

**FFIGUR 11**
Llinell amser o strategaethau a pholisïau sy'n sail i ddatgarboneiddio yng Ngogledd Iwerddon

| | |
|---|---|
| Ionawr 2020 | Roedd New Decade, New Approach yn cynnwys ymrwymiadau i Weithrediaeth a ddeuai i mewn yng Ngogledd Iwerddon gyflwyno deddfwriaeth a thargedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon, ac i ddatblygu strategaeth i fynd i'r afael ag effeithiau uniongyrchol a thymor hwy newid hinsawdd.[lxiii] |
| Hydref 2021 | Yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), ar ran Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn lansio ymgynghoriad ynghylch ei Draft Green Growth Strategy. Roedd y strategaeth ddrafft yn targedu gostyngiad mewn allyriadau net o 82% o leiaf erbyn 2050.[lxiv] |
| Rhagfyr 2021 | Adran yr Economi (DfE), ar ran Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn lansio The Path to Net Zero Energy sy'n nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer carbon sero net ac ynni fforddiadwy erbyn 2050. Yn y cyfamser, mae'r strategaeth yn amcanu at gyflawni gostyngiad o 56% mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag ynni erbyn 2030.[lxv] |
| Mawrth 2023 | DAERA yn lansio ymgynghoriad i helpu i oleuo datblygiad rheoliadau newydd a fydd yn gosod dyletswyddau i adrodd ar newid hinsawdd ar gyrff cyhoeddus penodedig, fel sy'n ofynnol dan y Climate Change Act (Northern Ireland) 2022.[lxvi] |
| Mehefin 2023 | DAERA yn lansio ymgynghoriad ynghylch y targedau allyriadau arfaethedig erbyn 2030 a 2040 ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r cyllidebau carbon arfaethedig ar gyfer y cyfnodau 2023-2027, 2028-2032 a 2033-2037.[lxvii] |

Ffynhonnell: chrynodeb Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon

## TREFNIADAU YNG NGOGLEDD IWERDDON

**73** Fe basiodd Cynulliad Gogledd Iwerddon Climate Change Act (Northern Ireland) 2022 ('Deddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon'), darn cyntaf Gogledd Iwerddon o ddeddfwriaeth bwrpasol ar newid hinsawdd, ym mis Mawrth 2022 ac fe gafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2022. Mae prif darged Deddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol i adrannau Gogledd Iwerddon sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn cyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050.

**74** Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn nodi targedau allyriadau interim, gyda gofynion bod allyriadau yn 2030 o leiaf 48% yn is na llinell sylfaen 1990 a bod allyriadau yn 2040 "ar y trywydd iawn" i gyrraedd y targed yn 2050.

**75** Er bod targed sero net cyfanredol ar gyfer allyriadau wedi cael ei bennu, dan y ddeddfwriaeth nid yw'r targed hwn yn ei gwneud yn ofynnol i allyriadau methan gael eu lleihau fwy na 46% o'i gymharu â llinell sylfaen 1990. Ymhlith gofynion eraill, pennwyd targed bod o leiaf 80% o'r trydan a ddefnyddir yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030 hefyd.

**76** Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i DAERA bennu 'cyllidebau carbon'; uchafswm ar gyfer allyriadau net Gogledd Iwerddon. Mae'r cyllidebau carbon wedi'u rhannu'n gyfnodau cyllidebol carbon, 2023-2027 yw'r cyntaf ohonynt, gyda phob cyfnod cyllidebol dilynol yn para am bum mlynedd. Rhaid i'r cyllidebau carbon a bennir ar gyfer pob cyfnod cyllidebol fod yn gyson â chyrraedd y targed hirdymor i gyrraedd sero net erbyn 2050 (a lle y bo'n berthnasol targedau interim 2030 a 2040). O dan Ddeddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon, mae'n ofynnol i DAERA ystyried ystod eang o ffactorau wrth bennu'r cyllidebau carbon, gan gynnwys amgylchiadau economaidd, cyllidol a chymdeithasol yn ogystal ag ystyriaethau amgylcheddol (gan gynnwys bioamrywiaeth).

**77** Mae gofynion eraill y Ddeddf yn cynnwys:

- bod DAERA, ar ran adrannau llywodraeth Gogledd Iwerddon, yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar yr hinsawdd sy'n nodi sut y bydd yr adrannau'n cwrdd â chyllideb garbon y cyfnod hwnnw;
- bod adrannau penodedig o fewn llywodraeth Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi cynlluniau sectoraidd sy'n nodi sut y bydd y targedau allyriadau'n cael eu cyrraedd gan amryw sectorau yn yr economi;[6]
- bod Comisiynydd Hinsawdd Gogledd Iwerddon (a gaiff ei greu mewn rheoliadau) yn cael ei benodi i oruchwylio ac adrodd ar weithrediadau Deddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon;
- bod Comisiwn Pontio Cyfiawn (a gaiff ei greu mewn rheoliadau) yn cael ei benodi, i oruchwylio a chynghori ynghylch elfennau pontio cyfiawn o'r ddeddfwriaeth;[7] a
- bod DAERA yn paratoi rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau i adrodd ar newid hinsawdd ar gyrff cyhoeddus rhagnodedig yng Ngogledd Iwerddon.

6 Mae cynlluniau sectoraidd yn ofynnol ar gyfer ynni, seilwaith, prosesau diwydiannol, rheoli gwastraff, amaethyddiaeth, pysgodfeydd a thrafnidiaeth. Nid yw'r Ddeddf yn gosod ffrâm amser ar gyfer cyhoeddi'r cynlluniau sectoraidd hyn.

7 Manylir ar yr egwyddor pontio cyfiawn yn y Ddeddf ac, yn gryno, mae'n golygu'r gofyniad i weithredu i leihau allyriadau Gogledd Iwerddon mewn modd sydd, hyd y gellir, yn cefnogi swyddi gwyrdd, yr economi (yn enwedig y sector amaethyddiaeth) a chenedlaethau'r dyfodol, ac sy'n cymryd camau i fynd i'r afael â thlodi, ac anghydraddoldeb ac amddifadedd cymdeithasol (ymhlith amcanion eraill).

**78** Gan ymateb i Ddeddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon, ym mis Mawrth 2023 fe hysbysodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei fod yn dal i amcangyfrif y byddai bwlch o 7% i'r targed sero net erbyn 2050, hyd yn oed pe bai camau gweithredu radical yn cael eu cymryd dan lwybr uchelgeisiol, ymestynnol i leihau allyriadau 93%.[8] Wedyn fe gynghorodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, er mwyn pontio'r bwlch i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, fod Dal Carbon yn Uniongyrchol o'r Awyr a gostyngiadau sylweddol pellach yn niferoedd y da byw'n opsiynau anturiol y gellid mynd ar eu trywydd. Ailadroddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd hefyd fod cyflawni gostyngiad o 82% o leiaf (a ddiweddarwyd wedyn i 83% yn ei adroddiad cynghori ym mis Mawrth) – yn unol â'i lwybr cytbwys argymelledig gwreiddiol ar gyfer Gogledd Iwerddon – eisoes yn uchelgeisiol iawn.

## Strategaethau a pholisïau sy'n drosfwaol

**79** Y brif strategaeth ddatgarboneiddio a gymeradwywyd gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon oedd y Draft Green Growth Strategy for Northern Ireland.[lxviii] Roedd y strategaeth yn gwneud 10 ymrwymiad mewn perthynas â thwf gwyrdd a newid hinsawdd. Pennwyd targed allyriadau yn y strategaeth i gyflawni gostyngiad net o 82% o leiaf erbyn 2050, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd dan y Llwybr Sero Net Cytbwys ar gyfer yr hyn a fyddai'n gyfraniad teg gan Ogledd Iwerddon at darged sero net erbyn 2050 y DU yn ei dyb ef.[9]

**80** Fodd bynnag, roedd y strategaeth yn nodi bod dau fil newid hinsawdd yn mynd trwy Gynulliad Gogledd Iwerddon ar y pryd ac felly y gallai'r targed allyriadau yn y strategaeth gael ei ddiwygio. O dan Ddeddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon, fe bennwyd targed sero net erbyn 2050 a oedd yn mynd y tu hwnt i'r gostyngiad o 82% mewn allyriadau a gynigiwyd gan y Draft Green Growth Strategy for Northern Ireland. Mae'r strategaeth wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa ddeddfwriaethol ond nid yw wedi cael ei chytuno'n derfynol yn absenoldeb Gweithrediaeth ar gyfer Gogledd Iwerddon.

**81** Mae DAERA yn arwain ar ddatblygiad cynllun gweithredu cyntaf Gogledd Iwerddon ar yr hinsawdd ar gyfer 2023-2027, ar y cyd â'r holl adrannau. Rhaid i'r cynllun gweithredu cyntaf hwn ar yr hinsawdd gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2023.

8 Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, *Advice report: The path to a Net Zero Northern Ireland*, Mawrth 2023 (edrychwyd arno ar 25 Awst 2023).
9 Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, *Letter: Lord Deben, Climate Change Committee to Edwin Poots MLA*, Rhagfyr 2020 (edrychwyd arno ar 25 Awst 2023).

TREFNIADAU YNG NGOGLEDD IWERDDON

# Strategaethau allweddol yn ôl sector

## Yr economi

*A 10X Economy – Northern Ireland's Decade of Innovation*[lxix]

- Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth i drawsnewid economi Gogledd Iwerddon, trwy ganolbwyntio ar dwf economaidd mwy arloesol, cynhwysol a chynaliadwy.

*Draft Circular Economy Strategy for Northern Ireland*[lxx]

- O dan y strategaeth, y targed a gynigir yw y bydd yr ôl troed deunyddiau blynyddol yng Ngogledd Iwerddon, erbyn 2050, wedi cael ei leihau i wyth tunnell y person (gyda defnydd cyfredol yn 16.6 tunnell y flwyddyn y person yn ôl yr amcangyfrifon).

## Ynni

*The Path to Net Zero Energy*[lxxi]

- Mae'r strategaeth yn sefydlu gweledigaeth hirdymor ar gyfer carbon sero net ac ynni fforddiadwy erbyn 2050. Yn y cyfamser, mae'r strategaeth yn amcanu at ostyngiad o 56% mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag ynni erbyn 2030 (o'i gymharu â lefelau 1990).
- Cafodd yr economi carbon isel ac ynni adnewyddadwy ei thargedu i gael ei dyblu mewn maint i drosiant o £2 biliwn o leiaf erbyn 2030 hefyd.

## Y sector cyhoeddus

*Energy Management Strategy and Action Plan for NI Central Government*[lxxii]

- O dan y strategaeth, roedd hi'n ofynnol i'r llywodraeth ganolog yng Ngogledd Iwerddon leihau ei defnydd ynni net 30% erbyn 2030 (yn erbyn llinell sylfaen 2016-17), a hefyd i sefydlu prosesau rheoli effeithiol sy'n datgloi gwerth.

- Mae cynnydd yn erbyn y targed defnydd ynni'n cael ei fonitro ac fe adroddir arno'n flynyddol.

TREFNIADAU YNG NGOGLEDD IWERDDON

## Defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF)

*Northern Ireland Peatland Strategy (2022–2040)*[lxxiii]

- Fe bennodd y Strategaeth Mawndiroedd nod, sef bod cynefinoedd mawndiroedd Gogledd Iwerddon, erbyn 2040, yn cael eu gwarchod a'u hadfer i optimeiddio eu gwerth cyfalaf naturiol. Bydd llwyddiant yn erbyn y nod hwn yn cael ei fesur trwy ddechrau adfer 150,000 o hectarau o fewndiroedd neu eu rheoli'n gynaliadwy erbyn 2050.
- Bydd cynllun i gyflawni'r strategaeth, y camau cyflawni, graddfa a ffynonellau cyllido a metrigau adrodd yn cael eu paratoi ar gyfer Gweithrediaeth a ddaw i mewn yng Ngogledd Iwerddon.

*Forests for our Future*[lxxiv]

- Sefydlwyd y rhaglen Forests for our Future ym mis Mawrth 2020 i roi cymorth i blannu 18 miliwn o goed ar 9,000 o hectarau o goetir newydd erbyn 2030. Bydd y rhaglen hon yn helpu i gyflawni amgylchedd iach, cynaliadwy, twf economaidd a bydd yn galluogi mwy o bobl i gael budd o fwy o lesiant y gall coetiroedd ei ddarparu.

## Amaethyddiaeth

*Future Farm Support Development Programme*[lxxv]

- Mae'r rhaglen Future Farm Support and Development gan DAERA yn canolbwyntio ar gyflawni pedwar deilliant: mwy o gynhyrchiant; cynaliadwyedd amgylcheddol, cydnerthedd gwell, a chadwyn gyflenwi effeithiol, sy'n gweithio. Bydd y cynlluniau a'r mesurau a gaiff eu cyflwyno trwy'r rhaglen hon yn darparu ysgogiadau i gydrannu at rwymedigaethau statudol dan Ddeddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon 2022, gyda ffocws cadarn ar bontio cyfiawn.

## Adeiladau preswyl

*Draft Housing Supply Strategy 2022–2037*[lxxvi]

- Mae'r strategaeth hon yn nodi gweledigaeth ar gyfer diwallu anghenion tai ledled Gogledd Iwerddon dros y 15 mlynedd nesaf. Mae datgarboneiddio'n elfen allweddol o'r strategaeth, sy'n amlinellu sut y bydd codi tai newydd ac ôl-osod cartrefi presennol yn cyflawni rôl allweddol o ran cyrraedd ein targedau lleihau carbon. Mae'r strategaeth hefyd yn disgrifio sut y bydd yr Adran Cymunedau (DfC) yn cynorthwyo pobl i wireddu'r uchelgeisiau hyn ac yn sicrhau pontio cyfiawn i bawb.

TREFNIADAU YNG NGOGLEDD IWERDDON

# Rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu Gogledd Iwerddon

**82** Mae'r Pwyllgor Gweithredol (Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) yn arfer awdurdod gweithredol ar ran Cynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys Prif Weinidog, Dirprwy Brif Weinidog a gweinidogion Gogledd Iwerddon. Yn wahanol i awdurdodaethau eraill, nid yw gweinidogion yng Ngogledd Iwerddon yn cymryd cydgyfrifoldeb am benderfyniadau adrannau eraill na Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Yn hytrach, mae gan weinidogion awdurdod gweithredol llawn yn y meysydd y maent hwy'n gyfrifol amdanynt, o fewn terfynau unrhyw raglen drawsbynciol eang y cytunwyd arni gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon, ac yn amodol ar ofynion y Cod Gweinidogol.

**83** Mae adrannau'r llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon yn gyrff corfforedig, gyda'u rôl a'u nifer wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Mae'r cyfrifoldeb am gyrraedd y targedau allyriadau a nodir yn Neddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon yn nwylo adrannau cyfunol llywodraeth Gogledd Iwerddon.

**84** Er bod gan holl adrannau Gogledd Iwerddon gyfrifoldebau dan Ddeddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon, DAERA sy'n gyfrifol am arwain ar lawer o'r elfennau penodol sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth, megis pennu'r cyllidebau carbon, adrodd ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau hynny a pharatoi cynlluniau gweithredu ar yr hinsawdd. Roedd cynlluniau sectoraidd yn ofynnol ar gyfer rhai meysydd o fewn yr economi hefyd, ac mae cyfrifoldeb am y rhain wedi cael ei ddyrannu rhwng:

- DAERA: y sector amaethyddiaeth, y sector pysgodfeydd a'r sector rheoli gwastraff;
- DfE: y sector ynni a'r sector prosesau diwydiannol; a hefyd
- yr Adran Seilwaith: y sector seilwaith a'r sector trafnidiaeth.

**85** Rhaid i bolisïau a chynigion sydd wedi'u cynnwys o fewn y cynlluniau gweithredu ar yr hinsawdd sicrhau y cwrddir â chyllidebau carbon perthnasol mewn set ychydig yn wahanol o sectorau penodedig na'r rhai uchod, gan gynnwys adeiladau preswyl (dan arweiniad DfC), adeiladau cyhoeddus (dan arweiniad DfE), a defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (dan arweiniad DAERA).

## Monitro deilliannau

**86** Mae Deddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon yn gosod dyletswydd ar DAERA, gyda mewnbwn adrannau eraill Gogledd Iwerddon, i baratoi a chyhoeddi cyfres o adroddiadau sy’n nodi pa gynnydd a wnaed o ran gweithredu’r cynigion a’r polisïau a nodir yn y cynlluniau gweithredu ar yr hinsawdd. Mae’n ofynnol hefyd i DAERA, gyda mewnbwn adrannau eraill Gogledd Iwerddon, adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni cyllidebau carbon a chyrraedd targedau lleihau allyriadau.

**87** Mae Deddf Newid Hinsawdd Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol i’r Pwyllgor Newid Hinsawdd fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran y cyllidebau carbon a’r targedau allyriadau carbon hefyd. Rhaid i’r broses adrodd hon gynnwys asesiad sy’n nodi a yw’r targedau hynny’n debygol o gael eu cyrraedd a’r cyllidebau hynny’n debygol o gael eu cyflawni, ac unrhyw fesurau pellach y mae eu hangen i gyrraedd y targedau hynny a chyflawni’r cyllidebau hynny. Mae’r adroddiad cynnydd cyntaf gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd i fod i gael ei gyhoeddi cyn diwedd 2027 a bydd yn ystyried y targedau allyriadau a’r cyllidebau carbon a bennwyd gan DAERA. Mae’n ofynnol i DAERA, gyda mewnbwn adrannau eraill Gogledd Iwerddon, ymateb i bob un o’r adroddiadau hyn gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd o fewn chwe mis.

**88** Mae’r cyllidebau carbon cyntaf i fod i gael eu pennu erbyn diwedd 2023, ac mae adolygiad a newidiadau posibl i dargedau allyriadau 2030 a 2040 yn ofynnol erbyn mis Mehefin 2024. Mae DAERA wedi lansio ymgynghoriad ar y cyd yn ddiweddar ar gynigion sy’n ymwneud â’r ddau ofyniad, ac mae wedi ymrwymo i gyhoeddi crynodeb o ymatebion yn dilyn cwblhau’r broses ymgynghori.

ÔL-NODIADAU

# Ôl-nodiadau


i Llywodraeth Cymru, *Sector cyhoeddus Cymru am fod yn garbon niwtral erbyn 2030*, Gorffennaf 2017.

ii Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Garbon 1 (CB1): Datganiad Terfynol o Gynnydd (2016 i 2020)*, Rhagfyr 2022.

iii Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *Support for innovation to deliver net zero*, Session 2022-23, HC 1321, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mai 2023.

iv Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *Decarbonising the power sector*, Session 2022-23, HC 1131, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mawrth 2023.

v Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *Measuring and reporting public sector greenhouse gas emissions*, Session 2022-2023, HC 63, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mehefin 2022.

vi Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *Local government and net zero in England*, Session 2021-2022, HC 304, YY Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Gorffennaf 2021.

vii Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *Reducing carbon emissions from cars*, Session 2019–2021, HC 1204, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Chwefror 2021.

viii Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, *Achieving net zero*, Session 2019–2021, HC 1035, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Rhagfyr 2020.

ix Llywodraeth EF, *Net Zero Strategy: Build Back Greener*. Hydref 2021.

x C Skidmore, *Independent Review of Net Zero*, Department for Energy Security & Net Zero, Ionawr 2023.

xi Llywodraeth EF, *Responding to the Independent Review of Net Zero's Recommendations*, Mawrth 2023.

xii Llywodraeth EF, *Powering Up Britain: The Net Zero Grow*, Mawrth 2023.

xiii Llywodraeth EF, *Carbon Budget Delivery Plan*, Mawrth 2023.

xiv Yr Adran Drafnidiaeth, *Decarbonisation Transport: A Better, Greener Britain*, Gorffennaf 2021.

xv Yr Adran Drafnidiaeth, *Bus Back Better: National Bus Strategy for England*, Mawrth 2021.

xvi Llywodraeth EF, *Industrial Decarbonisation Strategy*, Mawrth 2021.

xvii Llywodraeth EF, *Heat and Buildings Strategy*, Hydref 2021.

xviii Llywodraeth EF, *British Energy Security Strategy*, Ebrill 2022 and Llywodraeth EF, *Powering Up Britain: Energy Security Plan*, Mawrth 2023.

xix Yr Adran Drafnidiaeth, *Maritime 2050: Navigating the Future*, Ionawr 2019 a'r Adran Drafnidiaeth, *Clean Maritime Plan*, Gorffennaf 2019.

xx Yr Adran Drafnidiaeth, *Jet Zero Strategy: Delivering net zero aviation by 2050*, Gorffennaf 2022.

## ÔL-NODIADAU


**xxi** Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *The Path to Sustainable Farming: An Agricultural Transition Plan 2021 to 2024*, Tachwedd 2020.

**xxii** Archwilydd Cyffredinol yr Alban, *How the Scottish Government is set up to deliver climate change goals*, Ebrill 2023.

**xxiii** Audit Scotland, *Auditing climate change: Our strategy*, Rhagfyr 2022.

**xxiv** Y Comisiwn Cyfrifon, *Scotland's councils' approach to addressing climate change*, Medi 2022.

**xxv** Audit Scotland, *Addressing climate change in Scotland: A summary of key recommendations for public bodies*, Mawrth 2022.

**xxvi** Y Comisiwn Cyfrifon ac Archwilydd Cyffredinol yr Alban, *Auditing climate change: An update*, Hydref 2021.

**xxvii** Llywodraeth yr Alban, *Low Carbon Scotland: Meeting the Emissions Reduction Targets 2010–2022 – The Report on Proposals and Policies*, Mawrth 2011.

**xxviii** Llywodraeth yr Alban, *Low Carbon Scotland: Meeting the Emissions Reduction Targets 2013–2027 – The Second Report on Proposals and Policies*, Mehefin 2013.

**xxix** Llywodraeth yr Alban, *Climate Change Plan: The Third Report on Proposals and Policies 2018–2032*, Chwefror 2018.

**xxx** Llywodraeth yr Alban, *Update to the Climate Change Plan 2018-2032: Securing a Green Recovery on a Path to Net Zero*, Rhagfyr 2020.

**xxxi** Transport Scotland, *Scottish Government National Transport Strategy Delivery Plan (2022-23)*, Mehefin 2022.

**xxxii** Llywodraeth yr Alban, *Draft Energy Strategy and Just Transition Plan – delivering a fair and secure zero carbon energy system for Scotland*, Ionawr 2023.

**xxxiii** Llywodraeth yr Alban, *Heat in Buildings Strategy: Achieving Net Zero Emissions in Scotland's Buildings*, Hydref 2021.

**xxxiv** Llywodraeth yr Alban, *Draft Energy Strategy and Just Transition Plan – delivering a fair and secure zero carbon energy system for Scotland*, Ionawr 2023.

**xxxv** Element Energy, *Decarbonising the Scottish Transport Sector: Final Report for Transport Scotland*, Medi 2021.

**xxxvi** Archwilydd Cyffredinol yr Alban, *How the Scottish Government is set up to deliver climate change goals*, Ebrill 2023.

**xxxvii** Llywodraeth yr Alban, *Update to the Climate Change Plan 2018–2032: Securing a Green Recovery on a Path to Net Zero*, Rhagfyr 2020.

**xxxviii** Llywodraeth yr Alban, *Climate Change Plan Monitoring Reports*, Mai 2023.

**xxxix** Llywodraeth yr Alban, *Scottish Greenhouse Gas Statistics 2021*, Mehefin 2023.

**xl** Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Cyngor Sir Gaerfyrddin – Diweddariad Cynnydd Asesu Sicrwydd a Risg - Lleihau Carbon*, Rhagfyr 2022.

**xli** Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth*, Awst 2022.

**xlii** Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth,* Awst 2022.

**xliii** Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Awdurdod Tân ac Achub De Cymru – Lleihau Allyriadau Carbon,* Ebrill 2022.

**xliv** Llywodraeth Cymru, *Sector cyhoeddus Cymru am fod yn garbon niwtral erbyn 2030,* Gorffennaf 2017.

## ÔL-NODIADAU


**xlv** Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel*, Mawrth 2019.

**xlvi** Llywodraeth Cymru, *Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd*, Ebrill 2019.

**xlvii** Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i bawb: Cymru ymwybodol o'r hinsawdd*, Tachwedd 2019.

**xlviii** Llywodraeth Cymru, *Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon*, Mawrth 2021.

**xlix** Llywodraeth Cymru, *Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru*, Mawrth 2021.

**l** Llywodraeth Cymru, *Canllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero-net*, Mai 2021.

**li** Llywodraeth Cymru, *Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant*, Mehefin 2021.

**lii** Llywodraeth Cymru, *Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru*, Gorffennaf 2021.

**liii** Llywodraeth Cymru, *Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025)*, Hydref 2021.

**liv** Llywodraeth Cymru, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan 2021-25*, Hydref 2021.

**lv** Llywodraeth Cymru, *Dull Ymgysylltu o Amgylch y Newid yn yr Hinsawdd 2022-26*, Mehefin 2022.

**lvi** Llywodraeth Cymru, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan 2021-25*, Hydref 2021.

**lvii** Llywodraeth Cymru, *Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025),* Hydref 2021.

**lviii** Llywodraeth y DU, *Industrial decarbonisation strategy*, Mawrth 2021.

**lix** Llywodraeth Cymru, *Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru*, Gorffennaf 2021.

**lx** Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Garbon 1 (CB1): Datganiad Terfynol o Gynnydd (2016 i 2020)*, Rhagfyr 2022.

**lxi** Llywodraeth Cymru, Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025), Hydref 2021.

**lxii** Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth,* Awst 2022.

**lxiii** Swyddfa Gogledd Iwerddon, *New Decade, New Approach*, Ionawr 2020.

**lxiv** Yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, *Draft Green Growth Strategy*, Hydref 2021.

**lxv** Adran yr Economi, *The Path to Net Zero Energy*, Rhagfyr 2021.

**lxvi** Yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, *Consultation on Climate Change Reporting by Specified Public Bodies – Developing New Regulations*, Mawrth 2023.

**lxvii** Yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, *Consultation on: Northern Ireland's 2030 & 2040 Emissions Reduction Targets & First Three Carbon Budgets & Seeking views on Climate Change Committee (CCC) Advice Report: The path to a Net Zero Northern Ireland*, Mehefin 2023.

**lxviii** Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, *Draft Green Growth Strategy for Northern Ireland*, Hydref 2021.

## ÔL-NODIADAU


**lxix** Adran yr Economi, *A 10X Economy – Northern Ireland's Decade of Innovation*, Mai 2021.

**lxx** Adran yr Economi, *Draft Circular Economy Strategy for Northern Ireland*, Ionawr 2023.

**lxxi** Adran yr Economi, *The Path to Net Zero Energy*, Rhagfyr 2021.

**lxxii** The Strategic Investment Board, *Energy Management Strategy and Action Plan for NI Central Government*, Mawrth 2019.

**lxxiii** Yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, *Northern Ireland Peatland Strategy (2022–2040)*, Awst 2022.

**lxxiv** Yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, *DAERA forestry grants*, heb ei chyhoeddi (edrychwyd arni ar 25 Awst 2023).

**lxxv** Yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, *A new programme of Farm Support and Development*, heb ei chyhoeddi (vedrychwyd arni ar 25 Awst 2023).

**lxxvi** Yr Adran Cymunedau, *Housing Supply Strategy (2022–2037)*, Rhagfyr 2021.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i argraffu ar Pro Digital Silk ac yn cynnwys deunydd a gafwyd o goedwigoedd cynaliadwy a reolir yn gyfrifol ac ardystiwyd yn unol â'r FSC (Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd)

Mae'r mwydion pren yn gwbl ailgylchadwy ac yn rhydd o asid. Mae gan ein hargraffwyr ISO 14001 llawn hefyd. Achrediad amgylcheddol, sy'n sicrhau bod ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i Reoli gwastraff ac arferion a allai effeithio'r amgylchedd

£10.00

ISBN 978-1-78604-510-2

Design and Production by NAO Communications Team
DP Ref: 072141-001